2 Hydref 2008
www.wao.gov.uk

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Arian ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Roedd tîm Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Gillian Body, Mark Jeffs, Justine Morgan a James Verity.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n archwilio ac yn gwirio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan, neu sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Hefyd, mae ganddo'r hawl statudol i wneud adroddiad ar gynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyrff hynny ac i wella'u defnydd o adnoddau wrth gyflawni'u dyletswyddau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal a hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn archwilio cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau dan Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Fodd bynnag, er mwyn diogelu safle cyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'r adrodd yn ôl yn benodol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y gwaith llywodraeth leol hwn, ar wahan i phan y mae'n ofynnol i wneud hynny gan ddeddf.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, byddwch cystal ag ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 029 2032 0500, e-bost: wales@wao.gov.uk, neu gwelwch ein gwefan http://www.wao.gov.uk

Ⓗ Archwilydd Cyffredinol Cymru 2008

Gellir ail-ddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (gan eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat. Mae'n rhaid ei ail-ddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a dylid nodi teitl y cyhoeddiad hwn.

Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, mae'n rhaid sicrhau caniatâd y rheini sydd a'r hawlfraint cyn ei ail-ddefnyddio.

## Adroddiad a gyflwynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 2 Hydref 2008




*Ffynhonnell: Canolfan Mileniwm Cymru/Kiran Ridley*

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | **Crynodeb** | **6** |
| | Argymhellion | 11 |
| **1** | **Ar ôl dechrau anodd, ar y cyfan rheolodd yr arianwyr y risgiau o ran ariannu'r gwaith adeiladu yn effeithiol** | **14** |
| | Datblygodd y prosiect dros gyfnod hir o amser a chafwyd nifer o achosion o oedi a berwyd gan ansicrwydd ynghylch cost ac ariannu | 14 |
| | Roedd yr arianwyr yn effeithiol ar y cyfan wrth fynd i'r afael â'r risgiau allweddol cyn adeiladu | 15 |
| **2** | **Cydweithiodd y arianwyr yn dda i fonitro cynnydd yn ystod y cam adeiladu, ond daeth risgiau ariannol hysbys i'r amlwg a bu'n rhaid i'r Cynulliad warantu benthyciad banc mawr** | **24** |
| | Dangosodd y trefniadau monitro ar y cyd arfer da ar gyfer prosiectau ag ariannwr lluosog | 24 |
| | Drwy gytuno i warantu benthyciad banc Canolfan Mileniwm Cymru, derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad yn ffurfiol y risg y gallai fod angen iddi ariannu unrhyw ddiffygion | 25 |
| | Adeiladwyd Canolfan Mileniwm Cymru ar amser, ond o ganlyniad i gostau uwch a diffygion ariannu roedd amlygiad y Cynulliad i risg yn erbyn benthyciad Canolfan Mileniwm Cymru wedi'i ymestyn y tu hwnt i'r cam adeiladu | 26 |
| **3** | **Ar y cyfan, roedd yr arianwyr yn ymwybodol o'r risgiau yng nghynllun busnes Canolfan Mileniwm Cymru, ond gallent fod wedi asesu a mynd i'r afael â rhai risgiau allweddol yn well** | **30** |
| | Roedd arianwyr wedi asesu cynlluniau busnes cynnar Canolfan Mileniwm Cymru ac roedd ganddynt amheuon am ei gallu i weithredu heb gymhorthdal refeniw | 30 |
| | Nid oedd asesiadau arianwyr yn canolbwyntio'n ddigonol ar gostau gweithredu | 33 |
| | Roedd arian refeniw i Ganolfan Mileniwm Cymru a'r sefydliadau preswyl wedi mynd i'r afael â rhai risgiau, ond nid oedd arianwyr wedi asesu goblygiadau ariannol newidiadau i ddyheadau diwylliannol Canolfan Mileniwm Cymru yn llawn | 33 |

Pan gafodd y prosiect ei gymeradwyo, gwyddai Llywodraeth y Cynulliad fod risg y byddai angen cymorth refeniw pellach ar Ganolfan Mileniwm Cymru yn y dyfodol 35

Nid oedd gan arianwyr ddull cyfunol o fynd i'r afael â diwygiadau Canolfan Mileniwm Cymru i'w chynllun busnes ar ôl i'r gwaith adeiladu ddechrau 35

Gwyddai'r arianwyr fod cynllun busnes terfynol Canolfan Mileniwm Cymru yn risg uchel, ond nid oeddent yn ddigon ymwybodol o'r risgiau ariannol oedd yn weddill wrth i'r Ganolfan agosáu at ei dyddiad agor 36

## 4 Roedd diffygion o ran monitro ar ôl agor na aed i'r afael â hwy hyd nes i Ganolfan Mileniwm Cymru wneud cais am arian cyhoeddus ychwanegol i osgoi argyfwng ariannol 39

Roedd diffygion sylweddol yng ngwaith monitro Llywodraeth y Cynulliad o weithrediadau Canolfan Mileniwm Cymru hyd nes i Ganolfan Mileniwm Cymru gyrraedd argyfwng ariannol 39

Yn wynebu argyfwng ariannol yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, datblygodd Llywodraeth y Cynulliad well dealltwriaeth o fusnes Canolfan Mileniwm Cymru a cheisiodd fynd i'r afael â sefyllfa ariannol Canolfan Mileniwm Cymru 42

Ar y cyfan, bu proses Cyngor y Celfyddydau o fonitro cynnydd yn gymesur â'i rôl 44

## Atodiadau 46

Atodiad 1 - Canolfan Mileniwm Cymru a'r sefydliadau preswyl 46

Atodiad 2 - Dulliau 48

# Crynodeb

1 Mae Canolfan Mileniwm Cymru (y Ganolfan) yn adeilad eiconig ac yn rhan bwysig o dirwedd diwylliannol Cymru, yn gartref i saith sefydliad preswyl yn cynnwys Opera Cenedlaethol Cymru. Cafodd cyfanswm cost prosiect y Ganolfan – £109.3 miliwn[1] – ei ariannu gan y sector cyhoeddus yn bennaf (Ffigur 1). Cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad) yn wreiddiol i ddarparu cymhorthdal refeniw blynyddol o £750,000, yn ogystal â £450,000 tuag at gostau cynnal a chadw hirdymor a chostau cyfalaf, yn uniongyrchol i'r Ganolfan, ac £800,000 ychwanegol i bump o'r sefydliadau preswyl yn y Ganolfan[2]. Cytunodd Llywodraeth y Cynulliad hefyd i warantu benthyciad banc i'r Ganolfan, am £10 miliwn i gychwyn, gan godi'r ddiweddarach i £14 miliwn, i reoli'r diffyg arian parod yng nghamau diweddarach y gwaith adeiladu.

2 Er i'r syniad ar gyfer adeilad o'r fath ddechrau yng nghanol y 1990au, cymerodd gryn amser i ddwyn ffrwyth, ac am sawl blwyddyn bu ansicrwydd ynghylch ariannu a chostau. Ar ddiwedd 2000, roedd y prosiect mewn sefyllfa beryglus, gyda'r costau rhagweledig dipyn yn uwch na'r arian a oedd ar gael. Ar ôl gwaith ail-ddylunio a chaffael diwygiedig, cymeradwywyd y prosiect yn y pen draw gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Ionawr 2002. Ers iddi agor ym mis Tachwedd 2004, mae'r Ganolfan wedi llwyddo i ddenu cynulleidfaoedd o fwy na miliwn a dros dair miliwn o ymwelwyr achlysurol – yn unol â'r rhagolygon yn ei chynllun busnes. Mae hefyd yn cynnal rhaglen o gelfyddydau cyhoeddus, yn cynnwys prosiectau i blant ac ysgolion, a darparwyd perfformiadau am ddim yn ei chyntedd. Fodd bynnag, bu'r costau'n uwch nag a ragwelwyd sydd wedi arwain at golledion gweithredol. Ym mis Tachwedd 2007, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad y byddai'n talu'r benthyciad, a oedd wedi codi i £13.5 miliwn, a chynyddu'r cymhorthdal refeniw i £3.7 miliwn y flwyddyn.

**Ffigur 1 - Arian cyfalaf ar gyfer y Ganolfan**

| Ariannwr | £ miliwn |
|---|---|
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | 37.0 |
| Comisiwn y Mileniwm | 31.7 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 9.8 |
| Awdurdod Datblygu Cymru | 4.0 |
| Cyhoeddus eraill | 3.4 |
| Arall (preifat yn cynnwys lwfansau treth gyfalaf, rhoddion a benthyciad) | 23.4 |
| **Cyfanswm costau** | **109.3** |

3 O'r cychwyn, cafodd y Ganolfan ei chydnabod fel prosiect â risgiau cynhenid: adeilad eiconig â chostau cyfalaf uchel a nifer o arianwyr, a busnes uchelgeisiol, oedd yn cydbwyso hanfodion masnachol gyda dyheadau artistig, diwylliannol a chymdeithasol. Felly

1 Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cost y prosiect o £106.2 miliwn fel y cymeradwywyd gan Lywodraeth y Cynulliad a thua £3 miliwn ar gyfer gweithgarwch diwylliannol ychwanegol, y seremoni agoriadol, a chostau eraill y prosiect.

2 Darperir y £800,000 ychwanegol drwy Gyngor Celfyddydau Cymru i bump o'r saith sefydliad preswyl, i dalu am y gost uwch yn sgîl eu lleoli yn yr adeilad. Mae trefniadau ar wahân ar waith ar gyfer y ddau sefydliad preswyl arall. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 1.



archwiliwyd a yw'r arianwyr wedi mynd i'r afael yn effeithiol â'r risgiau dan sylw o ran ariannu'r Ganolfan. Daethom i'r casgliad bod yr arianwyr, ar y cyfan, wedi rheoli'r risgiau yn ymwneud ag ariannu'r gwaith o adeiladu'r ganolfan; ond er bod yr arianwyr wedi archwilio cynlluniau busnes gweithredol y Ganolfan ac yn ymwybodol o'r risgiau, ni aeth yr arianwyr i'r afael â'r rhain yn ddigonol ar ôl i'r Ganolfan agor. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- ar ôl dechrau anodd, ar y cyfan rheolodd yr arianwyr y risgiau o ran ariannu'r gwaith adeiladu yn effeithiol;
- cydweithiodd yr arianwyr yn dda i fonitro cynnydd yn ystod y cam adeiladu, ond daeth risgiau ariannol hysbys i'r amlwg a bu'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad warantu benthyciad banc mawr;
- ar y cyfan, roedd yr arianwyr yn ymwybodol o'r risgiau yng nghynllun busnes y Ganolfan, ond gallent fod wedi asesu a mynd i'r afael â rhai risgiau allweddol yn well;
- roedd diffygion o ran monitro ar ôl agor na aed i'r afael â hwy hyd nes i'r Ganolfan wneud cais am arian cyhoeddus ychwanegol i osgoi argyfwng ariannol.

## Ar ôl dechrau anodd, ar y cyfan rheolodd yr arianwyr y risgiau o ran ariannu'r gwaith adeiladu yn effeithiol

4 Daeth prosiect y Ganolfan i'r amlwg ar ôl cais aflwyddiannus am dŷ opera ym Mae Caerdydd, ac yn ystod ei dyddiau cynnar roedd cryn ansicrwydd ynghylch costau ac ariannu. Drwy ddiwedd y 1990au sicrhaodd y Ganolfan arian gan amrywiaeth o gyrff preifat a chyhoeddus – yn cynnwys Comisiwn y Mileniwm[3], y Swyddfa Gymreig fel yr oedd ar y pryd[4], Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd[5], Cyngor Celfyddydau Cymru (Cyngor y Celfyddydau) ac Awdurdod Datblygu Cymru (y WDA)[6] – tuag at brosiect yr amcangyfrifwyd y byddai'n costio tua £70 miliwn. Fodd bynnag, erbyn canol 2000, roedd y prosiect mewn sefyllfa arbennig o beryglus: roedd y Ganolfan wedi terfynu ei chontract gyda chwmni adeiladu ar ôl iddo gyflwyno pris tendro terfynol o £86 miliwn, a oedd yn sylweddol uwch na'r amcanbris gwreiddiol o £70 miliwn. Oherwydd yr ansicrwydd, ataliodd Comisiwn y Mileniwm ei arian i'r Ganolfan.

5 Ym mis Hydref 2000, rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad £2 filiwn i'r Ganolfan er mwyn ailgynllunio'r adeilad a datblygu mwy o sicrwydd o ran costau, a phenododd fonitoriaid annibynnol hefyd i gynghori ar gynnydd. Nododd monitoriaid Llywodraeth y Cynulliad fod yr angen am ailgynllunio yn golygu y bu gwerth tua £6 miliwn o gostau a wastraffwyd. Erbyn mis Mawrth 2001, nid oedd prosiect y Ganolfan o hyd wedi cyrraedd lefel y sicrwydd cost a geisiwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ac roedd gan swyddogion bryderon difrifol am lefel y risg ariannol y gofynnwyd i Lywodraeth y Cynulliad ei derbyn. Roedd gan swyddogion hefyd bryderon am agweddau ar lywodraethu corfforaethol yn y Ganolfan, yn enwedig cymysgedd sgiliau'r Bwrdd, er bod penodi Cadeirydd newydd ac aelod Bwrdd newydd o'r diwydiant adeiladu wedi mynd i'r afael â'r pryderon hyn i raddau helaeth.

3 Daeth Comisiwn y Mileniwm i ben ym mis Tachwedd 2006 a chymerodd y Gronfa Loteri Fawr gyfrifioldeb am ei swyddogaethau gweddilliol. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn destun archwiliad gan Reolwr a'r Archwilydd Cyffredinol ar ran Senedd y DU. Cawsom gymorth gan y Gronfa Loteri Fawr gyda'n gwaith, a sicrhaodd bod ei ffeiliau ar gael i ni eu hadolygu.

4 Ar ôl datganoli yn 1998, cafodd y rhan fwyaf o swyddogaethau'r Swyddfa Gymreig ar y pryd eu trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol.

5 Sefydlwyd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn 1987 i adfywio ac ailddatblygu ardal y dociau ym Mae Caerdydd. Cafodd ei dirwyn i ben ar 31 Mawrth 2000 a chafodd ei chyfrifoldebau eu trosglwyddo i Gyngor Sir Caerdydd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ac Awdurdod Datblygu Cymru.

6 Ym mis Ebrill 2006, unodd y WDA â Llywodraeth y Cynulliad.




*Ffynhonnell: Canolfan Mileniwm Cymru/Neil Bennett*

**6** Ym mis Ebrill 2001, gosododd y Gweinidog Cyllid ar y pryd ddau brawf yn ymwneud â'r cam adeiladu yr oedd yn rhaid i'r prosiect eu bodloni er mwyn mynd rhagddo: roedd yn rhaid cael caffaeliad pris sefydlog nad oedd yn costio mwy na £92 miliwn; ac roedd yn rhaid i'r Ganolfan wella ei llywodraethu corfforaethol, yn benodol gan ddirprwyo awdurdod i is-bwyllgor adeiladu o'i Bwrdd. Cyfraniad rhagweledig Llywodraeth y Cynulliad i'r prosiect oedd £33 miliwn.

**7** Ym mis Ionawr 2002, cymeradwyodd Llywodraeth y Cynulliad y prosiect gyda chyfanswm pris o £104 miliwn, a oedd yn uwch na'r terfyn uchaf o £92 miliwn a gyhoeddwyd naw mis yn gynharach. Roedd cyfraniad Llywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu £4 miliwn i £37 miliwn. Ac er bod llawer mwy o sicrwydd o ran cost nag a fu'n flaenorol, nid oedd y contract yn gyfan gwbl ar bris sefydlog (er bod rhesymau gwerth am arian da dros adael rhywfaint o bris y contract yn amodol ar amrywiad). O ganlyniad, gwelodd swyddogion fod risg o hyd y byddai'n rhaid gofyn i Lywodraeth y Cynulliad am gymaint â £14 miliwn yn fwy, naill ai oherwydd gwario mwy mewn rhannau o'r prosiect lle nad oedd y prisiau'n sefydlog, neu fethiant y Ganolfan i gyflawni ei thargedau codi arian uchelgeisiol.

**8** Yn ystod y broses gaffael, roedd ffocws Cyngor y Celfyddydau ar integredd artistig yr adeilad. Roedd yn pryderu am y risg y gallai'r symud i gaffael pris sefydlog arwain at gyfaddawdu o ran ansawdd, yn arbennig y gallai pwysau ariannol ar y contractwr tuag at ddiwedd y gwaith adeiladu effeithio ar ansawdd dodrefnu'r ardaloedd a fyddai'n gartref i'r sefydliadau preswyl a oedd yn cael eu hariannu gan Gyngor y Celfyddydau. Er mwyn rheoli'r risgiau hyn, ceisiodd a chafodd Cyngor y Celfyddydau sicrwydd bod y pensaer gwreiddiol yn rhan o dîm y prosiect adeiladu, a bod cynlluniau manwl ar gyfer yr ardaloedd a fyddai'n gartref i'r sefydliadau a oedd yn cael eu noddi gan Gyngor y Celfyddydau yn rhan o'r ddogfennaeth gaffael.

## Cydweithiodd yr arianwyr yn dda i fonitro cynnydd yn ystod y cam adeiladu, ond daeth risgiau ariannol hysbys i'r amlwg a bu'n rhaid i’r Cynulliad warantu benthyciad banc mawr

**9** Roedd yr arianwyr o Gymru a Chomisiwn y Mileniwm wedi penodi monitor prosiect ar y cyd er mwyn monitro cynnydd yn ystod y broses o godi'r adeilad. Gweithiodd y trefniant hwn yn effeithiol a galluogodd yr arianwyr i ddatblygu rhaglen dalu a oedd yn adlewyrchu anghenion llif arian y Ganolfan yn ystod y cam adeiladu ac osgoi'r risg o dalu ddwywaith. Golygai hefyd y gallai'r holl arianwyr cyhoeddus fonitro cynnydd a, thrwy adroddiadau misol manwl, cawsant wybod am broblemau wrth iddynt godi, a thrwy hynny gael ymateb ar y cyd. Rydym o'r farn bod y dull hwn yn arfer da mewn prosiectau mawr lle ceir arianwyr cyhoeddus lluosog.

**10** Cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau, cytunodd yr arianwyr y byddent yn ‘blaen-lwytho’ eu grantiau, gan dalu mwy yn y misoedd cynnar er mwyn rhoi amser i'r Ganolfan sicrhau nawdd preifat. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r trefniant llif arian hyblyg hwn, sylweddolodd y Ganolfan, oni bai y gallai




ddenu rhodd fawr ar gam cynnar iawn, y byddai angen benthyciad arni ar ddiwedd 2003, a fyddai wedyn yn cael ei dalu yn ôl wrth i arian o ffynonellau eraill ddod i'r adwy yn 2004 a dechrau 2005.

11 Ym mis Hydref 2003, gwarantodd Llywodraeth y Cynulliad fenthyciad o £10 miliwn a wnaed gan fanc masnachol i'r Ganolfan. Heb arian o'r fath, ni allai'r prosiect fod wedi parhau. Roedd gwarantu'r benthyciad yn cynyddu amlygrwydd Llywodraeth y Cynulliad i'r risg y byddai'n rhaid iddi ddarparu arian ychwanegol – hyd at werth gwarant y benthyciad – pe bai diffygion o ran codi arian neu orwario. Wedi hynny daeth yn gynyddol amlwg i'r arianwyr na fyddai'r Ganolfan yn gallu talu ei benthyciad cyn iddi agor ym mis Tachwedd 2004. Ym mis Tachwedd 2003, cyhoeddodd y Ganolfan ei bod wedi sicrhau prif roddwr, Syr Donald Gordon, a oedd wedi addo rhoi £10 miliwn. Fodd bynnag, nid oedd y rhodd hon yn datrys y bwlch llif arian byrdymor gan ei bod wedi'i rhoi dros gyfnod o wyth mlynedd.

12 Gwaethygwyd y canlyniadau ariannol yn sgîl y ffaith na fyddai'r Ganolfan yn derbyn yr holl arian yr oedd ei angen cyn agor gan y cynnydd yng nghyfanswm cost y prosiect. Agorodd y Ganolfan ar amser ym mis Tachwedd 2004, ond roedd gorwario o tua £5 miliwn, i raddau helaeth yn sgîl costau uwch cyn agor, yn arbennig staff, gweinyddu, costau marchnata a'r gala agoriadol, a gostiodd £1 million ychwanegol. Pan agorodd, felly, bu'n rhaid i'r Ganolfan barhau i ddibynnu ar y benthyciad a oedd ganddi. Roedd y benthyciad hwn, a fwriadwyd yn wreiddiol i helpu i ariannu'r cam adeiladu, wedi arwain at gostau gwasanaethu yn ystod y cam gweithredol.

### Ar y cyfan, roedd yr arianwyr yn ymwybodol o'r risgiau yng nghynllun busnes Canolfan Mileniwm Cymru, ond gallent fod wedi asesu a mynd i'r afael â rhai risgiau allweddol yn well

13 I ddechrau, bwriadodd y Ganolfan fod yn ddichonadwy heb droi at gymhorthdal cyhoeddus. Cynhaliodd yr arianwyr adolygiadau manwl o gynlluniau busnes cynnar y Ganolfan, wrth iddynt ddatblygu. I ddechrau, comisiynodd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd asesiad annibynnol ar ran y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn ogystal, cymerodd Cyngor y Celfyddydau gyngor annibynnol a gofynnodd Llywodraeth y Cynulliad i'r Ganolfan gomisiynu gwaith annibynnol yn dilysu cadernid ei rhagolygon, a chomisiynodd ei hasesiad ei hun hefyd gan PricewaterhouseCoopers. O ganlyniad i'r adolygiadau hyn, cydnabu'r arianwyr fod cyfle sylweddol na fyddai'r Ganolfan yn ariannol ddichonadwy oni bai bod ganddi rywfaint o gymhorthdal refeniw cyhoeddus.

14 Ym mis Ebrill 2001, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid ar y pryd y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn flynyddol yn darparu £750,000 o gymhorthdal refeniw a £450,000 ar gyfer costau cynnal a chadw hirdymor a fyddai'n cael ei dalu'n uniongyrchol i'r Ganolfan ac £800,000 pellach i'w dalu i rai o'r sefydliadau preswyl i gwmpasu eu costau preswyl uwch (Atodiad 1). Gosododd y Gweinidog Cyllid brawf: er mwyn i'r prosiect fynd rhagddo, byddai'n rhaid rhoi sicrwydd o'r newydd i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol y gallai'r Ganolfan weithredu o fewn y lefelau cymhorthdal hynny. Ym mis Mai 2001, cynhyrchodd y Ganolfan gynllun diwygiedig yn ymgorffori'r cymhorthdal o £750,000. Roedd i'r cynllun risg is o ran bod y cymhorthdal yn golygu y byddai'n rhaid i'r Ganolfan ddenu llai o ymwelwyr oedd yn talu, cyflwyno llai o berfformiadau a chytuno ar gytundebau rhannu elw llai optimistaidd gyda chynhyrchwyr er mwyn mantoli'r gyllideb. Fodd bynnag, roedd uchelgais diwylliannol y

Ganolfan wedi newydd, ac roedd y cynllun newydd yn seiliedig ar raglen gelfyddydol o safon ryngwladol oedd yn fwy uchelgeisiol ac yn fwy costus. Nid oes dim byd ar gofnod i awgrymu bod yr arianwyr wedi ystyried goblygiadau ariannol y newid hwn mewn uchelgais diwylliannol, ac a oedd yr asesiadau blaenorol yn ddilys o hyd yn sgîl y newid hwn. Mewn gwirionedd, yr unig adolygiad annibynnol o'r cynllun diwygiedig oedd yr un a gafodd ei gynnal gan Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol. Er bod manteision posibl o ran sicrhau craffu a chymorth Aelodau yn y ffordd hon, nid oedd hyn yn ddigon i gymryd lle dadansoddiad arbenigol gan swyddogion neu gynghorwyr annibynnol.

**15** Mae'n arferol i fusnesau cymhleth fireinio eu cynlluniau ac, ar ôl i'r gwaith adeiladu ddechrau, cynhyrchodd y Ganolfan gynlluniau busnes diwygiedig ym mis Rhagfyr 2002 a mis Hydref 2003, yn dangos y byddai'r Ganolfan yn gwneud colled, hyd yn oed ar ôl cymhorthdal Llywodraeth y Cynulliad. Dywedodd Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor y Celfyddydau wrth y Ganolfan y byddai angen iddi lunio cynllun busnes a oedd yn dangos sefyllfa mantoli'r gyllideb dros y pum mlynedd cyntaf, ond cytunodd y byddai angen ailystyried y cymhorthdal refeniw yn y dyfodol.

**16** Ym mis Gorffennaf 2004, cynhyrchodd y Ganolfan ei chynllun busnes terfynol cyn agor. Dangosodd y cynllun hwn y byddai'r Ganolfan yn gwneud colled weithredol dros y tair blynedd gyntaf, ond byddai modd talu am y diffygion hyn drwy ddefnyddio arian Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cynnal a chadw – ar y sail na fyddai angen gwneud fawr ddim gwaith cynnal a chadw ar yr adeilad newydd yn y blynyddoedd cynnar – a thrwy roddion. Dim ond yn y byrdymor roedd y cynllun hwn yn gynaliadwy, oherwydd ar ryw adeg byddai angen defnyddio'r arian ar gyfer cynnal a chadw at y diben y'i bwriadwyd ac nid oedd y rhoddion untro yn ffynhonnell refeniw hirdymor. At hynny, nid oedd y rhagolygon ariannol a oedd yn dangos y byddai'r Ganolfan yn mantoli'r gyllideb yn ystyried effaith talu'r benthyciad a ffioedd llog cysylltiedig. Adolygodd ymgynghorwyr Cyngor y Celfyddydau y cynllun a daethant i'r casgliad bod y tebygolrwydd y byddai'r Ganolfan yn mantoli'r gyllideb yn 2005 yn ‘gredadwy’, ond roedd risg uchel y byddai'r Ganolfan yn wynebu diffygion heb eu rhagweld. Ar adeg agor, ni wnaeth yr arianwyr asesu'r risgiau gweddilliol na mynd i'r afael â hwy; yn arbennig, ni wnaeth Llywodraeth y Cynulliad, fel y cynlluniwyd pan gytunwyd ar warant y benthyciad gyntaf, ailystyried effaith gwasanaethu'r benthyciad ar gynlluniau busnes y Ganolfan.

## Roedd diffygion o ran monitro ar ôl agor na aed i'r afael â hwy hyd nes i Ganolfan Mileniwm Cymru wneud cais am arian cyhoeddus ychwanegol i osgoi argyfwng ariannol

**17** Gwyddai Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor y Celfyddydau fod y cam gweithredol yn un risg uchel, a chymerwyd camau i fonitro perfformiad ar ôl agor ym mis Tachwedd 2004. Llywodraeth y Cynulliad sydd â’r prif fudd yn y Ganolfan fel yr ariannwr refeniw a’r prif ariannwr cyfalaf, gwarantwr y benthyciad, ac fel y prif gorff cyhoeddus y byddai'r Ganolfan yn troi ato pe bai'n wynebu anawsterau ariannol. Parhaodd Cyngor y Celfyddydau, er nad yw'n un o arianwyr refeniw'r Ganolfan, i ariannu'r cwmnïau preswyl yno a chadwodd fuddiant o ran sicrhau bod y Ganolfan yn darparu'r cynigion artistig yr oedd ei arian cyfalaf yn seiliedig arno. Ers iddi agor, mae'r Ganolfan wedi denu dros filiwn o bobl i'w pherfformiadau a thros dair miliwn o ymwelwyr achlysurol, ac wedi darparu rhaglen celfyddydau cyhoeddus yn cynnwys prosiectau i ysgolion a phlant.



18 Ar ôl i'r Ganolfan agor, roedd gwaith monitro Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys mynd i gyfarfodydd misol Bwrdd y Ganolfan fel arsylwyr, cyfarfodydd rhwng y Ganolfan a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad mor aml â rhai misol, a chyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn rhwng Cadeirydd y Ganolfan a'r Gweinidog Diwylliant. Roedd gan Lywodraeth y Cynulliad brotocol monitro wedi'i nodi yn ei gytundeb ariannu refeniw gyda'r Ganolfan, a nododd fod yn rhaid rhoi gwybodaeth fanwl am berfformiad. Fodd bynnag, ni chytunwyd ar y protocol hwn tan ddwy flynedd ar ôl i'r Ganolfan agor a derbyn cymorth refeniw.

19 Oherwydd camddehongli'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ni chadwodd Llywodraeth y Cynulliad ddigon o wybodaeth am berfformiad y Ganolfan ers iddi agor. Er i swyddogion ddweud wrthym y gallent gael gweld cofnodion a gadwyd gan y Ganolfan ar gais, ni welsom unrhyw dystiolaeth iddynt wneud hynny. Yn ystod ein harchwiliad adolygodd Llywodraeth y Cynulliad ei dehongliad o'r Ddeddf ac mae'n cadw gwybodaeth fanwl bellach. Serch hynny, am gyfnod sylweddol o amser, roedd diffygion yn y wybodaeth yr oedd arianwyr yn ei chadw am dueddiadau ym mherfformiad gweithredol y Ganolfan, a'i lles ariannol sylfaenol, er gwaethaf amlygiad ariannol ffurfiol o fwy na £10 miliwn a'r disgwyliad y byddai modd galw ar Lywodraeth y Cynulliad am arian refeniw pellach pe na bai'r Ganolfan yn ffynnu.

20 Roedd absenoldeb cofnodion cywir o fewn Llywodraeth y Cynulliad, ynghyd â newidiadau staff yn is-adran noddi Llywodraeth y Cynulliad wedi atal swyddogion rhag caffael y ddealltwriaeth angenrheidiol o sefyllfa ariannol y Ganolfan ac felly o'r canlyniadau ariannol tebygol i Lywodraeth y Cynulliad. Yn arbennig, yn 2005 a 2006 parhaodd Llywodraeth y Cynulliad i ymestyn ei gwarant benthyciad heb asesu'n llawn a allai'r Ganolfan dalu'r benthyciad yn ôl, er gwaethaf y ffaith bod y Ganolfan yn mynd i golledion llawer uwch nag a ragwelwyd.

21 Ym mis Tachwedd 2007, ar ôl adolygiad gan ymgynghorwyr ac adolygiad mewnol o ragolygon ariannol y Ganolfan, talodd Llywodraeth y Cynulliad fenthyciad y Ganolfan, a oedd wedi codi i £13.5 miliwn gyda chymeradwyaeth Llywodraeth y Cynulliad, a chynyddodd y cymhorthdal refeniw blynyddol i £3.7 miliwn. Wrth asesu'r angen am gymhorthdal refeniw, datblygodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ddealltwriaeth well o fusnes ac arian y Ganolfan. Cynhaliwyd asesiad manwl o gyfrifon rheoli a rhagolygon ariannol y Ganolfan a baratowyd yn ystod 2007; fodd bynnag, ni wnaethant archwilio cyfrifon archwiliedig y Ganolfan ar gyfer 2006, a oedd ar gael i'r cyhoedd ac a fyddai wedi rhoi tystiolaeth gadarnach, wedi'i dilysu'n allanol ar berfformiad ariannol diweddar.

## Argymhellion

1 Yn ystod camau cynnar y prosiect, nid oedd gan yr arianwyr farn gyffredin p'un ai amser, cost neu ansawdd oedd eu blaenoriaeth ar gyfer y gwaith adeiladu ac o ganlyniad dewiswyd dulliau caffael gwahanol. Dylai arianwyr cyhoeddus prosiectau adeiladu mawr gytuno ar y flaenoriaeth gyffredinol ar gyfer y sector cyhoeddus a'r dull caffael mwyaf priodol i gyflawni'r flaenoriaeth honno.

2 Ar ôl ymyriad Llywodraeth y Cynulliad ym mis Ebrill 2001, mabwysiadodd y Ganolfan gontract dylunio ac adeiladu pris sefydlog, yn unol ag arfer da a dderbyniwyd lle mae sicrhau sicrwydd cost a throsglwyddo risg yn flaenoriaeth. Dylai arianwyr ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr am arian cyfalaf ar gyfer prosiectau adeiladu ddangos cydymffurfiaeth ag arfer da, gan gynnwys arfer da o ran adeiladu a nodwyd gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

3 Roedd y defnydd o'r monitor ar y cyd yn ystod y cam cyfalaf yn arfer da, a galluogodd yr arianwyr i fabwysiadu dull cydgysylltiedig o ran mynd i'r afael â risgiau. Yn y dyfodol, dylai arianwyr ddefnyddio monitro ar y cyd ar gyfer pob prosiect cyfalaf mawr lle ceir arianwyr lluosog.

4 Ychydig cyn i'r prosiect gael ei gymeradwyo'n derfynol, adolygodd y Ganolfan ei huchelgeisiau busnes yn sylfaenol, o fod yn theatr ranbarthol i fod yn lleoliad celfyddydol rhyngwladol. Er y bu cynlluniau blaenorol yn destun craffu manwl, ni chafodd y cynllun diwygiedig hwn ei archwilio'n fanwl gan swyddogion nag arbenigwyr annibynnol. Cyn cytuno ar ariannu, dylai arianwyr asesu effaith newidiadau sylweddol i gynlluniau busnes.

5 Mae'r pontio o'r cam adeiladu i'r cam gweithredol yn gynhenid gymhleth ac iddo risg uchel, am ei fod yn cynnwys newid sylweddol mewn ffocws. Pan agorodd y Ganolfan, roedd ganddi fenthyciad banc mawr wedi'i warantu gan Lywodraeth y Cynulliad. Nid oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi archwilio effaith cario'r benthyciad drosodd ar ddichonoldeb gweithredol y Ganolfan, ac ni ddatblygodd gynllun i fynd i'r afael â'r risgiau oedd yn weddill. Wrth i brosiectau cyfalaf mawr symud o adeiladu i'r cam gweithredol, dylai arianwyr nodi:

- risgiau gweddilliol;
- sut y gallai risgiau o'r fath effeithio ar y cam gweithredol;
- pa gynlluniau sydd ar waith i reoli'r risgiau hynny.

6 Nid oedd gan Lywodraeth y Cynulliad gytundeb ariannu refeniw gyda'r Ganolfan tan bron i ddwy flynedd ar ôl iddi agor. Golygai'r oedi hwn nad oedd gofyniad cyfrwymol ar y Ganolfan i ddarparu'r wybodaeth yr oedd ei hangen ar Lywodraeth y Cynulliad i fonitro'r risgiau allweddol. Dylai arianwyr refeniw sicrhau bod darparu gwybodaeth addas am berfformiad yn un o amodau eu cytundebau ariannu. Dylai lefel ac amledd y wybodaeth sydd ei hangen fod yn gymesur â risg, ond mae'n debygol o gynnwys:

- cyfrifon rheoli misol;
- rhagolygon llif arian;
- dangosyddion perfformiad busnes allweddol.

7 Oherwydd pryderon am wybodaeth fasnachol sensitif yn cael ei rhyddhau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, penderfynodd yr arianwyr beidio â chadw gwybodaeth fanwl am berfformiad ariannol a busnes y Ganolfan.' Mae hwn yn gamddehongliad sylfaenol o'r ffordd y dylid cymhwyso'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'r arianwyr bellach wedi newid y penderfyniad hwn. Dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi canllawiau i bob corff cyhoeddus yng Nghymru, gan nodi:

- eu cyfrifoldeb i gadw cofnodion priodol;
- na ddylid dehongli'r Deddf Rhyddid Gwybodaeth fel cyfiawnhad dros beidio â chadw gwybodaeth a chofnodion pwysig.


8 Pan gytunodd Llywodraeth y Cynulliad i ymestyn ei gwarant benthyciad yn 2005 a 2006, nid oedd ganddi ddealltwriaeth digon manwl o fusnes y Ganolfan. Byddai dadansoddiad manwl wedi dangos mai prin oedd y cyfle iddi dalu'r benthyciad, a bod y taliadau llog parhaus wedi tanseilio dichonoldeb ariannol y Ganolfan ymhellach. Hefyd, pan gytunodd Llywodraeth y Cynulliad i dalu'r benthyciad a chynyddu arian refeniw'r Ganolfan, gwnaeth hynny ar ôl dadansoddiad manwl o gynlluniau busnes a rhagolygon y Ganolfan ond ni archwiliodd swyddogion y cyfrifon archwiliedig ar gyfer 2006, a fyddai wedi rhoi tystiolaeth gadarnach, wedi'i dilysu'n



allanol ar berfformiad ariannol diweddar. Dylai arianwyr refeniw cyhoeddus sicrhau bod eu proses o wneud penderfyniadau ariannol yn seiliedig ar wybodaeth gynhwysfawr sydd mor gadarn a diweddar ag sy'n ymarferol bosibl. Dylai lefel manylder y wybodaeth fod yn gymesur, ond mae'n debygol o gynnwys cyfuniad o:

- gyfrifon archwiliedig;
- rhagolygon llif arian;
- cyfrifon rheoli;
- rhagolygon y cynllun busnes.

# Rhan 1 - Ar ôl dechrau anodd, ar y cyfan rheolodd yr arianwyr y risgiau o ran ariannu'r gwaith adeiladu yn effeithiol



*Ffynhonnell: Canolfan Mileniwm Cymru*

**1.1** Roedd uchelgais hirsefydlog i ddatblygu prif leoliad celfyddydol ym Mae Caerdydd, gyda chynlluniau ar gyfer tŷ opera drwy ddechrau'r 1990au, a newidiodd wedyn i gynlluniau ar gyfer y Ganolfan. Roedd risgiau cynhenid ynghlwm wrth brosiect adeiladu'r Ganolfan; mae'n adeilad eiconig unigryw gydag arianwyr lluosog, pob un â'i flaenoriaethau a'i uchelgeisiau. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried a oedd yr arianwyr wedi mynd i'r afael â'r risgiau o ran ariannu'r gwaith o adeiladu'r Ganolfan yn effeithiol.

## Datblygodd y prosiect dros gyfnod hir o amser a chafwyd nifer o achosion o oedi a berwyd gan ansicrwydd ynghylch cost ac ariannu

**1.2** Daeth y cysyniad y tu ôl i'r Ganolfan i'r amlwg ar ôl cais aflwyddiannus i Gomisiwn y Mileniwm am arian tuag at dŷ opera ym Mae Caerdydd. Ym mis Chwefror 1996, cyfarfu grŵp o sefydliadau o'r sector cyhoeddus a sefydliadau preifat, yn cynnwys Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a Chyngor y Celfyddydau, i drafod dewisiadau amgen. Defnyddiodd eu trafodaethau adroddiad gan y Sefydliad Materion Cymreig – *Bread and Roses: making the case for a Millennium Centre for the Arts in Cardiff* (1996) – a alwodd am leoliad aml-gelfyddydol yng Nghaerdydd. Yn 1996, sefydlodd y Ganolfan ei hun fel elusen a chwmni i ddatblygu cynigion am leoliad i'r celfyddydau ym Mae Caerdydd.

**1.3** Yn ystod y camau ffurfiannol, cymerodd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd rôl arweiniol ar ran y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan weithio'n agos gyda Bwrdd a chwmni'r Ganolfan a oedd newydd eu sefydlu, a Chyngor y Celfyddydau, wedi'i gynorthwyo gan ei gynghorydd annibynnol, yr ymgynghorydd theatr Louis K Fleming. Rhoddodd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd gyfanswm o £2.2 miliwn i'r Ganolfan a ddefnyddiwyd ganddi, ynghyd ag arian preifat yn cynnwys £2 filiwn o




Sefydliad Garfield Weston, i ategu ei gweithrediadau parhaus ac i ariannu ffioedd proffesiynol ar gyfer cynllunio'r adeilad a rhoi amcan o'r costau. Ar ôl cynlluniau cynnar seithug oedd yn cynnwys amgueddfa a sinema, datblygodd y Ganolfan ei gweledigaeth am theatr delynegol – yn llwyfannu opera, sioeau cerdd a dawns – a fyddai'n gartref i Opera Cenedlaethol Cymru (OCC) a chwe sefydliad preswyl arall, ac a fyddai hefyd yn ymgorffori cyfleusterau manwerthu a hamdden. Nod y Ganolfan oedd y byddai arian loteri yn talu am gost y prosiect, a amcangyfrifwyd y byddai rhwng £69 miliwn a £72 miliwn – £27 miliwn gan Gomisiwn y Mileniwm a £10 miliwn gan Gyngor y Celfyddydau, gydag £8.5 miliwn ohono'n arian loteri. Gwnaeth Comisiwn y Mileniwm a Chyngor y Celfyddydau gynigion amodol o grant i'r Ganolfan ar ddiwedd 1997.

**1.4** Cafwyd oedi drwy 1998 a 1999 o ran sicrhau arian ychwanegol gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 1999, cadarnhaodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn ogystal ag arian Cyngor y Celfyddydau, fod £15.9 miliwn wedi'i ddyrannu i'r prosiect gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn cynnwys £8 miliwn gan y Swyddfa Gymreig ar y pryd a £1.5 miliwn – yn codi'n ddiweddarach i £4.4 miliwn – mewn arian Ewropeaidd.

**1.5** Drwy gydol diwedd 1999 a dechrau 2000, datblygodd y Ganolfan ei chynlluniau ac, ym mis Tachwedd 1999, cytunodd ar gontract gyda chwmni adeiladu – AMEC – i negodi uchafswm pris gwarantedig ar gyfer y gwaith adeiladu. Gyda chontract wedi'i lofnodi ac ymrwymiadau ffurfiol ar arian cyfatebol wedi'i drefnu, roedd y Ganolfan yn gallu cael arian gan Gomisiwn y Mileniwm i ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer y safle ymhellach.
Ar ddiwedd mis Mehefin 2000, cyflwynodd AMEC ei bris terfynol o £86 miliwn; roedd hyn yn sylweddol uwch na'r gyllideb o rhwng £69 miliwn a £72 miliwn, a phenderfynodd y Ganolfan ddod â'r contract i ben. Roedd gan y Ganolfan opsiwn i brynu'r tir yr oedd disgwyl adeiladu'r ganolfan, ond daeth yr opsiwn hwnnw i ben ar ddiwedd mis Mehefin 2000 a nododd y perchnogion, Grosvenor Waterside, eu bwriad i roi'r tir ar y farchnad agored.
Er mwyn sicrhau'r cyfle i'r prosiect barhau, prynwyd y tir am £2.5 miliwn gan Gyngor Sir Caerdydd[7]. Oherwydd yr ansicrwydd oedd yn gysylltiedig â'r prosiect, ataliodd Comisiwn y Mileniwm ei daliadau i'r Ganolfan.

**1.6** Ar ôl terfynu contract AMEC, penododd Llywodraeth y Cynulliad ymgynghorwyr adeiladu, sef Turner and Townsend, i archwilio costau tebygol adeiladu'r Ganolfan. Cyflwynodd yr ymgynghorwyr adroddiad yn ystod hydref 2000 y byddai'r prosiect yn costio dros £100 miliwn. Roedd hyn yn gytûn ag asesiad y Ganolfan ei hun a phenderfynodd y Ganolfan ddechrau ar broses o ailgynllunio'r adeilad gan leihau ei faint o 25 y cant i dorri'r costau i £82 miliwn.

## Roedd yr arianwyr yn effeithiol ar y cyfan wrth fynd i'r afael â'r risgiau allweddol cyn adeiladu

**1.7** Parhaodd yr arianwyr i gredu bod y prosiect yn cynnig manteision a allai fod yn sylweddol, o ran celf a diwylliant, proffil rhyngwladol Cymru, adfywio a datblygu economaidd o dwristiaeth, yn ogystal â chynnig cartref i OCC a'r Urdd a fyddai fel arall wedi gorfod cael cartref newydd ar draul arian cyhoeddus. Roedd y pedair blynedd a dreuliwyd yn datblygu'r prosiect wedi dangos ei fod yn gymhleth, a bod heriau a risgiau sylweddol, yn arbennig o ran cost y prosiect a'r hyn yr oedd modd ei gyflawni gyda'r arian oedd ar gael.

7 Yn ddiweddarach trosglwyddodd Cyngor Sir Caerdydd y tir i Lywodraeth y Cynulliad heb godi tâl amdano. Cadwodd Llywodraeth y Cynulliad y budd rhydd-ddaliadol a llogi'r tir i'r Ganolfan ar brydles hir am rent rhad.

**Ffigur 2 - Lwfansau treth gyfalaf**

| Lwfansau treth gyfalaf |
|---|
| Roedd y Ganolfan yn bwriadu codi arian o lwfansau treth gyfalaf, y gellir eu hawlio yn erbyn cyfran o'r costau adeiladu. O dan y cynllun, mae banc yn talu'r Ganolfan am brydles ar rannau o'r adeilad, yna mae'r banc yn prydlesu'r rhannau yn ôl i'r Ganolfan. Caiff y rhan fwyaf o'r taliad ei roi mewn cyfrif banc llog uchel, ond mae'r Ganolfan yn cadw cyfran i'w ddefnyddio fel arian ar gyfer adeiladu. Defnyddir y llog ar y cyfrif i dalu taliad rent blynyddol i'r banc ac i ad-dalu cyfanswm gwerth y brydles ar ddiwedd y cyfnod prydlesu. Cyd-fuddiannau'r cynllun yw y gallai'r Ganolfan gael arian parod yn y byrdymor i ariannu'r gwaith adeiladu, a gallai'r banc hawlio lwfansau treth gyfalaf yn erbyn yr asedau. Roedd swm yr arian y gallai'r Ganolfan ei hawlio o'r cynllun yn dibynnu ar gyfanswm cost y gwaith adeiladu, swm yr adeilad yr oedd y banc yn barod i'w brydlesu, ac ar gyfraddau llog. I ddechrau roedd gan y Ganolfan a'r Trysorlys farn wahanol o ran cymhwyster y Ganolfan a'r swm y gallai ei godi, ond cafodd y rhain eu datrys wedi hynny. |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**Cymerodd Llywodraeth y Cynulliad gamau rhesymol i reoli risg ariannol yn y prosiect, ond yr oedd yn dal wedi'i amlygu i risg ariannol ar ôl cymeradwyo'r prosiect**

**1.8** Yn dilyn penderfyniad y Ganolfan i derfynu ei chontract gydag AMEC, daeth Llywodraeth y Cynulliad yn gynyddol bryderus am y risgiau oedd yn ymwneud â'r prosiect, yn arbennig:

- Y diffyg sicrwydd cost a'r risg y byddai costau'n cynyddu ar ôl dechrau'r gwaith adeiladu.
- Roedd angen codi'r bwlch ariannu o hyd – sef £8 miliwn o arian preifat. Nododd swyddogion fod llawer o sefydliadau wedi methu â chodi symiau dipyn yn llai ac nid oedd unrhyw sefydliad y tu allan i Lundain wedi codi swm mor fawr.
- Cwestiynodd swyddogion a fyddai'r Ganolfan yn cael cymaint ag y bwriadwyd o lwfansau treth gyfalaf (Ffigur 2).

**1.9** Roedd y risg yn gysylltiedig â chost a chodi arian yn fater sylweddol i Lywodraeth y Cynulliad oherwydd gellid galw arni i dalu am unrhyw ddiffygion pe na bai gan y Ganolfan ddigon o arian yn ystod y cam adeiladu. Cydnabu swyddogion y byddai'n anodd iawn i Lywodraeth y Cynulliad wrthod darparu arian cyfalaf ychwanegol pe bai hanner neu dri chwarter yr adeilad wedi'i adeiladu ond heb ddigon o arian ar ôl. Nododd swyddogion y byddai Comisiwn y Mileniwm yn annhebygol o dalu am unrhyw ddiffygion; y Ganolfan oedd yr olaf o brosiectau mawr y mileniwm a byddai Comisiwn y Mileniwm yn dirwyn ei weithgarwch i ben yn ystod y cyfnod adeiladu. Cymerodd Llywodraeth y Cynulliad gamau priodol yn ystod y cyfnod o fis Hydref 2000 hyd nes cymeradwyo'r prosiect yn 2002 i ddiogelu ei hun rhag risg ariannol. Roedd y camau hyn yn cynnwys:

- Hydref 2000: ceisio cynyddu sicrwydd cost drwy ddarparu arian ar gyfer gwaith cynllunio manwl a thrwy benodi monitoriaid annibynnol;
- Ebrill 2001: ei gwneud yn ofynnol cael caffael pris sefydlog a mynnu newidiadau o ran llywodraethu'r Ganolfan.

**1.10** Serch hynny, pan gafodd y prosiect ei gymeradwyo ym mis Ionawr 2002 roedd risgiau o orwario a diffygion ariannu o hyd, ac roedd Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y byddai'r naill neu'r llall yn debygol o arwain at alw am ragor o arian gan Lywodraeth y Cynulliad.

Hydref 2000: gwella sicrwydd cost drwy ddarparu arian ar gyfer gwaith cynllunio manwl a thrwy benodi monitoriaid annibynnol

**1.11** Ym mis Hydref 2000, cytunodd Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu £2 filiwn i'r Ganolfan ar gyfer gwaith cynllunio wedi'i fwriadu i gynorthwyo amcangyfrifon cost cywirach.



Bwriad Llywodraeth y Cynulliad oedd penderfynu a ddylid darparu mwy o arian ar gyfer y prosiect erbyn mis Mawrth 2001 ai peidio. Ar yr un pryd, penododd Llywodraeth y Cynulliad ymgynghorwyr maintfesur a rheoli prosiect annibynnol – Francis Graves – i gynghori ar gynnydd yng nghynlluniau diwygiedig y Ganolfan a dibynadwyedd yr amcangyfrifon cost.

**1.12** Yn eu cyngor interim a ddarparwyd ym mis Rhagfyr 2000, dywedodd Francis Graves wrth Lywodraeth y Cynulliad bod penderfyniad y Ganolfan i fabwysiadu dull rheoli adeiladu o ran y gwaith adeiladu yn golygu bod y prosiect yn annhebygol iawn o ddatblygu lefel y sicrwydd cost yr oedd Llywodraeth y Cynulliad yn ei dymuno. O dan y dull rheoli adeiladu, ni chaiff prisiau eu sefydlu ymlaen llaw, ac mae dibyniaeth amlwg ar reolwr prosiect i gadw costau o dan reolaeth. Mantais rheoli adeiladu yw y gall ganiatáu am gyfnod caffael byrrach, am nad oes angen trafodaethau ar bris pob darn o waith adeiladu. Mae yna le hefyd am hyblygrwydd ac i addasu i newidiadau. Fodd bynnag, y risg gydnabyddedig gyda rheoli adeiladu yw, heb sefydlu'r costau ymlaen llawn, gallant gynyddu'n sylweddol. Dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrthym nad oeddent mewn sefyllfa i fynnu newid yn y broses gaffael ar y cam hwn; y Llywodraeth oedd y trydydd ariannwr mwyaf a phrin oedd ei rheolaeth dros y Ganolfan fel cwmni preifat.

**1.13** Ym mis Ionawr 2001, roedd uwch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn pryderu am lywodraethu corfforaethol, y £6 miliwn o gostau a wastraffwyd, a chapasiti'r Ganolfan i gyflawni'r prosiect mewn gwirionedd. Roedd swyddogion yn pryderu'n benodol nad oedd gan Fwrdd y Ganolfan ddigon o brofiad o gyflawni prosiect adeiladu mawr. Ar yr adeg hon, ystyriodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad o ddifrif wrthod rhoi unrhyw arian ychwanegol i'r prosiect, ond penderfynwyd parhau a cheisio gwelliannau o ran y trefniadau llywodraethu corfforaethol. Aed i'r afael yn rhannol â phryderon swyddogion pan, ym mis Chwefror 2001, penodwyd aelod newydd o'r diwydiant adeiladu i Fwrdd y Ganolfan. Lliniarwyd y pryderon hyn ymhellach yn sgîl penodiad Syr David Rowe Beddoe – Cadeirydd y WDA ar y pryd – fel Cadeirydd newydd y Ganolfan ym mis Mawrth 2001.




*Ffynhonnell: Canolfan Mileniwm Cymru/Alex Skibinski*

**1.14** Er y cafodd swyddogion rywfaint o sicrwydd yn sgîl y penodiadau newydd yn y Ganolfan, roedd pryderon o hyd ynghylch risgiau ariannol y prosiect adeiladu. Ym mis Mawrth 2001, nododd Francis Graves nad oedd gan y prosiect y lefel o sicrwydd cost yr oedd Llywodraeth y Cynulliad yn chwilio amdani. Cynghorodd Francis Graves mai'r unig ffordd o gael sicrwydd cost a throsglwyddo risg i ffwrdd o Lywodraeth y Cynulliad fyddai i'r Ganolfan drefnu contract pris sefydlog â chwmni adeiladu.

Ebrill 2001: ei gwneud yn ofynnol cael caffael pris sefydlog a mynnu gweld gwelliannau mewn llywodraethu fel un o amodau cael mwy o arian

**1.15** Roedd Llywodraeth y Cynulliad yn pryderu am y risgiau oedd yn rhan o'r prosiect fel yr oedd ym mis Mawrth 2001, ond yr oedd yn dal i ddymuno sicrhau'r buddiannau posibl ac felly gwnaeth un ymdrech olaf i roi'r prosiect ar sylfaen gadarn. Mewn araith i'r cyfarfod llawn ym mis Ebrill 2001, nododd y Gweinidog Cyllid ar y pryd ddau brawf ar adeiladu yr oedd yn rhaid i'r prosiect eu bodloni er mwyn parhau[8]:

- mae'n rhaid i'r Ganolfan negodi contract pris sefydlog gyda chyfanswm pris prosiect nad yw'n fwy na £92 miliwn;
- mae'n rhaid i'r Ganolfan roi sicrwydd clir ar lywodraethu corfforaethol a dirprwyo i is-bwyllgor adeiladu'r Bwrdd.

**1.16** Mae Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn argymell mai dull cynllunio ac adeiladu â phris sefydlog yw'r dull caffael mwyaf priodol lle mae sicrwydd cost a throsglwyddo risg yw'r blaenoriaethau. Awgryma arfer da mai'r parti sydd yn y sefyllfa orau i reoli risg ddylai fod yn gyfrifol am risg. Fel y cydnabu Llywodraeth y Cynulliad, yn achos prosiect adeiladu'r Ganolfan, Llywodraeth y Cynulliad fyddai'n gyfrifol am risg ariannol unrhyw orwario yn y pen draw (paragraff 1.9). Fel ariannwr hyd braich yn hytrach na'r rheolwr prosiect, ni fyddai Llywodraeth y Cynulliad mewn sefyllfa dda i reoli'r risg hon yn uniongyrchol. Byddai contract pris sefydlog yn trosglwyddo'r risg i'r cwmni adeiladu, a fyddai mewn sefyllfa well i'w rheoli.

**1.17** Un o ganlyniadau'r oedi parhaus o ran datblygu'r prosiect oedd colli gwerth £4.4 miliwn o arian Ewropeaidd a ddyfarnwyd i'r prosiect. Er mwyn cael gafael ar yr arian hwn roedd angen gwariant sylweddol ar adeiladu erbyn mis Rhagfyr 2001, nad oedd yn bosibl mwyach.

**1.18** Roedd y terfyn costau uchaf o £92 miliwn a bennwyd gan y Gweinidog Cyllid (paragraff 1.15) yn seiliedig ar asesiad Francis Graves y gellid cyflawni'r prosiect am y pris hwn, os oedd rheoli prosiect effeithiol a chontract priodol. Ar £92 miliwn, roedd pris y prosiect yn uwch na'r amcangyfrif o'r ffigur gwreiddiol o £69 miliwn i £72 miliwn, sefyllfa a wnaed yn waeth pan gollwyd y £4.4 miliwn o arian Ewropeaidd. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r bwlch ariannu, dywedodd y Gweinidog Cyllid ar y pryd pe bai'r prosiect yn mynd rhagddo, byddai Llywodraeth y Cynulliad yn darparu £25 miliwn ychwanegol, gan gynyddu cyfanswm disgwyliedig ei chyfraniad i £33 miliwn (Ffigur 3).

**1.19** Roedd araith y Gweinidog Cyllid ar y pryd wedi adlewyrchu dull darbodus o ran argaeledd y £12 miliwn nad oedd wedi'i sicrhau eto. Dywedodd wrth y Cynulliad Cenedlaethol ei bod yn fwy rhesymol disgwyl i'r Ganolfan godi £4 miliwn o roddion preifat a £5 miliwn o lwfansau treth gyfalaf na'i chynlluniau blaenorol o £8 miliwn a £7 miliwn yn y drefn honno. Nododd dogfen ategol i araith y Gweinidog Cyllid, a wnaed ar gael i Aelodau, fod y £12 miliwn i'w godi yn risg ariannol bellach i Lywodraeth y Cynulliad, er nad ymrwymodd Lywodraeth y Cynulliad yn ffurfiol i ddarparu'r arian hwn os nad oedd modd dod o hyd iddo rywle arall. I'r gwrthwyneb, pe bai'r Ganolfan yn rhagori ar ei thargedau codi arian preifat, efallai y byddai modd lleihau cyfraniad Llywodraeth y Cynulliad.

**1.20** Roedd yr ail ofyniad a bennwyd gan y Gweinidog Cyllid, ar ddirprwyo pwerau i bwyllgor adeiladu, yn adlewyrchu graddau pryder Llywodraeth y Cynulliad ynghylch

8 Gosodwyd trydydd prawf hefyd, ar ddichonoldeb cynllun busnes y Ganolfan, a nodir yn Rhan 3 o'r adroddiad hwn.



**Ffigur 3 - Proffil ariannu ym mis Ebrill 2001**

| Ffynhonnell Ariannu | Neilltuwyd £ miliwn | I'w godi £ miliwn | Cyfanswm £ miliwn |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth y Cynulliad | 33.1 | | 33.1 |
| Comisiwn y Mileniwm | 27.0 | 3.0 | 30.0 |
| Cyngor y Celfyddydau | 10.2 | | 10.2 |
| Lwfansau cyfalaf | - | 5.0 | 5.0 |
| WDA | 4.0 | | 4.0 |
| Rhoddion preifat | 2.9 | 4.0 | 6.9 |
| Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd | 2.0 | | 2.0 |
| Bwrdd Croeso Cymru | 0.4 | | 0.4 |
| Arall | 0.3 | | 0.3 |
| **Cyfanswm** | **79.9** | **12.0** | **91.9** |

gallu'r Ganolfan i gyflawni'r cam adeiladu. Roedd y gofyniad i fynd ar drywydd contract pris sefydlog wedi lleihau'r ddibyniaeth ar reolwyr prosiect y Ganolfan i sicrhau bod costau'n aros o fewn y gyllideb. Serch hynny, roedd yn ddarbodus i Lywodraeth y Cynulliad ddefnyddio ei throsoledd cyllidol i roi sicrwydd iddi'i hun bod awdurdod priodol i reoli'r cam adeiladu yn cael neilltuo i is-bwyllgor y Ganolfan lle roedd crynodiad o unigolion â sgiliau a phrofiad o reoli prosiectau adeiladu mawr.

## Ionawr 2002: cymeradwywyd y prosiect ond Llywodraeth y Cynulliad yn dal yn agored i risg ariannol

**1.21** Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2001, gwahoddodd y Ganolfan dendrau, dewis cynigydd a negodi contract gyda Syr Robert McAlpine Ltd ar gyfer adeiladu'r Ganolfan. Daeth yn amlwg yn gyflym y byddai'n annhebygol y byddai'r Ganolfan yn negodi cyfanswm pris prosiect o £92 miliwn, yr uchafswm a nodwyd gan y Gweinidog Cyllid. Ym mis Awst 2001, cytunodd y Gweinidog Cyllid i gynyddu cyfraniad disgwyliedig Llywodraeth y Cynulliad ymhellach, o £33 miliwn i £37 miliwn, ond dywedodd wrth y Ganolfan na fyddai mwy o arian yn cael ei roi ac y byddai'n rhaid i unrhyw arian pellach ddod o ffynonellau eraill. Ym mis Rhagfyr 2001, daeth y Ganolfan a Syr Robert McAlpine i gytundeb am bris ar gyfer adeiladu, sef £78 miliwn, a olygai bod cyfanswm pris y prosiect yn £104 miliwn, yn cynnwys gwariant a chostau gweithredol blaenorol. Dengys Ffigur 4, yn ogystal â'r arian ychwanegol a addawyd gan Lywodraeth y Cynulliad, y brif ffynhonnell o arian ychwanegol i dalu am y pris uwch oedd £5.6 miliwn mewn arian preifat. Bwriadodd y Ganolfan godi £2 filiwn pellach o'r lwfansau treth gyfalaf, yn seiliedig ar gytundeb amodol gyda'i banc, Lloyds TSB Leasing Ltd.

**Ffigur 4 - Proffil ariannu ym mis Rhagfyr 2001**

| | Ebrill 2001 £ miliwn | Cynnydd £ miliwn | Rhagfyr 2001 £ miliwn |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth y Cynulliad | 33.1 | 3.9 | 37.0 |
| Comisiwn y Mileniwm | 30.0 | 0.7 | 30.7 |
| Cyngor y Celfyddydau | 10.2 | (0.4) | 9.8 |
| Preifat (i'w godi) | 4.0 | 5.6 | 9.6 |
| Lwfansau treth gyfalaf | 5.0 | 2.0 | 7.0 |
| WDA | 4.0 | - | 4.0 |
| Preifat (neilltuwyd) | 2.9 | - | 2.9 |
| Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd | 2.0 | - | 2.0 |
| Bwrdd Croeso Cymru | 0.4 | - | 0.4 |
| Arall | 0.3 | 0.4 | 0.7 |
| **Cyfanswm** | **91.9** | **12.2** | **104.2 (ar ôl talgrynnu)** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru*

**1.22** Roedd y prosiect terfynol wedi bodloni gofyniad y Gweinidog Cyllid ar ddirprwyo awdurdod i bwyllgor adeiladu'r Ganolfan, ond nid oedd wedi bodloni'n llawn brawf y Gweinidog Cyllid bod yn rhaid i'r prosiect fod yn un cost sefydlog a pheidio â chostio mwy na £92 miliwn. Ar £104 miliwn, roedd yn amlwg yn groes i'r terfyn cost uchaf o £92 miliwn. Ac roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno i dalu mwy na'r terfyn a bennwyd gan y Gweinidog Cyllid yn flaenorol ar gyfer cyfanswm ei chyfraniad.

**1.23** Er bod prif ran y contract gyda Syr Robert McAlpine ar bris sefydlog, nid oedd elfennau o'r prosiect, megis gosodiadau a ffitiadau a TG, ar brisiau sefydlog. Cydnabu Llywodraeth y Cynulliad na fyddai'n ddarbodus i'r Ganolfan dalu'r premiwm yr oedd ei angen i drosglwyddo'r risgiau hyn i'r contractwr. Yn seiliedig ar adroddiad gan Francis Graves, roedd swyddogion o'r farn bod tua £15 miliwn o gostau nad oedd yn sefydlog a allai arwain at orwario, er bod rhywfaint o arian wrth gefn yng nghyllideb y Ganolfan[9]. Er bod mwy o sicrwydd cost nag o dan y dull rheoli adeiladu blaenorol a fabwysiadwyd cyn mis Ebrill 2001 a bod risg yn cael ei throsglwyddo i ffwrdd o Lywodraeth y Cynulliad, roedd risg o hyd y byddai costau'n uwch na chyfanswm pris y prosiect, sef £104 miliwn.

**1.24** Nododd swyddogion hefyd risgiau ariannol o ran y proffil ariannu ar gyfer adeiladu'r ganolfan. Ym mis Ebrill 2001, roedd y Gweinidog Cyllid wedi nodi y byddai £4 miliwn yn darged darbodus ar gyfer codi arian ond, er mwyn ariannu cost uwch y contract, roedd y targed wedi cynyddu'n sylweddol i £9.6 miliwn. Nid oedd tystiolaeth newydd y

9 Roedd risg hefyd o orwario costau'n gysylltiedig â darparu man parcio ceir, a oedd yn un o amodau caniatâd cynllunio'r Ganolfan, er nad oedd hyn yn rhan o'r contract adeiladu.




### Ffigur 5 - Amlygrwydd ariannol Llywodraeth y Cynulliad

| | Ebrill 2001 £ miliwn | Ionawr 2002 £ miliwn | Cynnydd £ miliwn | Nodyn |
|---|---|---|---|---|
| Cyfraniad pendant gan Lywodraeth y Cynulliad | 33.1 | 37.0 | 3.9 | |
| Barn swyddogion ar lefel y risg weddilliol i Lywodraeth y Cynulliad | 12.0 | 14.0 | 2.0 | Nid yw ffeiliau Llywodraeth y Cynulliad yn cofnodi sut y cafwyd y ffigur o £14 miliwn o'r elfennau risg amrywiol a nodir isod |
| **Cyfanswm y gofyniad ariannol posibl** | **45.1** | **51.0** | **5.9** | |
| Ffynonellau ariannu sydd mewn perygl | | | | |
| Arian ychwanegol gan Gomisiwn y Mileniwm | 3.0 | Dd/G | Dd/G | Cytunwyd ar £30.7 miliwn o arian Comisiwn y Mileniwm eisoes erbyn mis Ionawr 2002 (paragraff 1.27) – heb fod yn risg bellach |
| Rhoddion preifat i'w codi | 4.0 | 9.6 | 5.6 | |
| Lwfansau treth gyfalaf i'w sicrhau | 5.0 | 7.0 | 2.0 | Erbyn mis Ionawr 2002 rhoddwyd rhywfaint o sicrwydd gan y banc (paragraff 1.21) |
| **Cyfanswm ariannu sydd mewn perygl** | **12.0** | **16.6** | **4.6** | |

**Noder**

Yn ychwanegol, roedd £15 miliwn yn y prosiect nad oedd yn sefydlog; roedd Llywodraeth y Cynulliad yn agored o bosibl i'r risg y gallai'r costau yma godi.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

gellid sicrhau'r arian ychwanegol hwn, a chyngor Franics Graves oedd ei fod yn darged uchelgeisiol. Fodd bynnag, cafodd swyddogion gysur o gefndir Cadeirydd newydd y Ganolfan mewn ceisio mwy o fuddsoddiad gan y sector preifat, a daeth i'r casgliad nad oedd sail ganddynt dros ddweud nad oedd modd cyflawni'r targed. Yn ein barn ni, mae'n annhebygol y gellid dod o hyd i sail o'r fath ac, fel y cydnabu swyddogion, roedd risg pe na bai bodd cyflawni’r targed, y gellid galw ar Lywodraeth y Cynulliad i bontio unrhyw ddiffyg.

**1.25** Roedd swyddogion wedi meintoli lefel y risg weddilliol - yn ymwneud â'r posibilrwydd o orwario costau a diffygion mewn arian preifat - a daethpwyd i'r casgliad y gellid, yn y sefyllfa waethaf, alw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddarparu £14 miliwn ychwanegol i'r prosiect. Dengys Ffigur 5 sut roedd cyfanswm y risg ariannol i Lywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu rhwng mis Ebrill 2001 a mis Ionawr 2002.

**1.26** Argymhellodd swyddogion y dylai'r Gweinidog Diwylliant ar y pryd roi cymeradwyaeth derfynol i'r prosiect ar ‘y ddealltwriaeth glir

## Cyfraniad Llywodraeth y Cynulliad a phrawf y prosiect

Cynghorodd swyddogion y Gweinidog Diwylliant ar y pryd bod 'y prosiect yn methu un o'r profion oherwydd bod pris cyffredinol y prosiect yn sylweddol uwch na'r terfyn uchaf a bennwyd bryd hynny [gan y Gweinidog Cyllid]. Ond … mae'r prosiect yn bwriadu ariannu'r gwahaniaeth o ffynonellau eraill. Mae'r £37 miliwn ychwanegol y cytunodd y Gweinidogion ei neilltuo ar gyfer y prosiect pe bai'n ofynnol iddynt wneud hynny o fewn y terfyn uchaf a bennwyd gan y Gweinidog Cyllid'.

Fodd bynnag, gellir dadlau bod cyfraniad ychwanegol o £4 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad, a gymerodd ei hymrwymiad pendant o £33 miliwn i £37 miliwn, y tu allan i'r paramedrau a bennwyd gan y Gweinidog Cyllid. Roedd yr amlygiad ychwanegol o £12 miliwn y cyfeiriwyd ato gan y Gweinidog Cyllid i gwmpasu unrhyw ddiffygion mewn arian heb ei sicrhau o ffynonellau eraill. Fel y dengys Ffigur 4, nid oedd y £4 miliwn ychwanegol a addawyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Ionawr 2002 at y diben hwn ond, yn hytrach i gwmpasu, yn rhannol, gostau uwch cyfanswm y prosiect. Ac roedd y swm a geisiwyd o'r ffynonellau ariannu eraill hyn wedi cynyddu yn hytrach na lleihau.

eich bod chi a'ch cyd-Aelodau yn ymwybodol o'r risgiau hyn a'u canlyniadau posibl i'r Cynulliad pe byddent yn digwydd'. Cafodd cyngor swyddogion ei anfon at y Gweinidog Cyllid ar y pryd hefyd. Ym mis Ionawr 2002, pan ofynnwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol bleidleisio i groesawu llofnodi'r contract oedd ar fin digwydd, nododd y Gweinidog Diwylliant fod y prosiect wedi bodloni'r profion a osodwyd iddo gan y Gweinidog Cyllid ym mis Ebrill 2002 - gweler y blwch isod. Er i'r Gweinidog Diwylliant nodi bod rhai risgiau'n parhau o hyd, ni roddodd asesiad manwl o natur, graddfa ac effaith bosibl y risgiau hynny. Yn dilyn hynny pleidleisiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru o blaid croesawu'r prosiect, gan gynnwys y cyfraniad o £37 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad.

**1.27** Yn fuan cyn y bleidlais yn y cyfarfod llawn, ysgrifennodd Comisiwn y Mileniwm at Lywodraeth y Cynulliad, i gadarnhau ei fod yn barod i ddarparu ei £30.7 miliwn o arian. Fodd bynnag, mynegodd bryder ynghylch y risgiau sy'n gysylltiedig â'r ffaith nad oedd y prosiect yn gyfan gwbl ar bris sefydlog, a lefel yr arian preifat yr oedd angen ei chodi. Dywedodd Comisiwn y Mileniwm, pe bai'r risgiau hyn yn digwydd ni fyddai'n barod i gynyddu ei grant.

### Roedd Cyngor y Celfyddydau yn pryderu'n arbennig ynghylch ansawdd yr adeilad a cheisiodd liniaru'r risgiau hyn cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau

**1.28** Bu Cyngor y Celfyddydau yn ymwneud â phrosiect y Ganolfan o'r cychwyn, a chymeradwyodd ei arian i'r Ganolfan ym mis Tachwedd 1997. Yn ogystal â phenodi ymgynghorydd annibynnol, Louis K Fleming, i gynghori ar gynnydd o ran datblygu'r cynlluniau ar gyfer ganolfan a'r risgiau cysylltiedig, roedd Cyngor y Celfyddydau hefyd yn rhannu monitor prosiect ar y cyd â Chomisiwn y Mileniwm – y WT Partnership – i gynghori ar gostau. Ardystiodd Cyngor y Celfyddydau benderfyniad y Ganolfan yn ystod haf 2000, ar ôl terfynu contract AMEC, i fabwysiadu dull caffael rheoli adeiladu. Ym mis Hydref 2000, roedd y WT Partnership wedi cymryd rhan mewn gweithdy caffael a gynhaliwyd gan Citex, rheolwyr prosiect y Ganolfan, a ardystiodd y dull rheoli adeiladu, ac roedd gan Gyngor y Celfyddydau hyder yn Citex i reoli'r cam adeiladu a'i gyflawni o fewn y gyllideb.

**1.29** Roedd y ffaith bod Cyngor y Celfyddydau o blaid dull rheoli adeiladu yn adlewyrchu ei ffocws ar integredd artistig y cynllun ac ansawdd yr adeilad, a allai fod mewn perygl mewn contract â phris sefydlog. Roedd swyddogion Cyngor y Celfyddydau yn ymwybodol o rôl Cyngor y Celfyddydau o ran diogelu gweledigaeth artistig y Ganolfan ac, er enghraifft, mynnodd y dylai arbenigwyr acwstig gyfrannu'n sylweddol at gynllunio'r theatr. Ysgrifennodd Cyngor y Celfyddydau at y Ganolfan ym mis Mai 2001 gan fynegi pryder am ei benderfyniad i geisio contract â phris sefydlog (paragraffau 1.14 – 1.16 a 1.21). Nododd Cyngor y Celfyddydau'r risg pe



bai costau'n codi a bod elw o dan bwysau, efallai y byddai'r contractwr yn ceisio peryglu ansawdd y gosodiadau a'r ffitiadau terfynol yn ardaloedd y sefydliadau preswyl, a fyddai'n effeithio ar eu gallu i ddefnyddio'r gofod yn y ffordd orau bosibl. Er mwyn lleihau'r risg hon, ceisiodd Cyngor y Celfyddydau sicrwydd gan y Ganolfan y byddai'r manylebau presennol ar gyfer yr ardaloedd hynny'n rhan o'r ddogfennaeth gaffael, a chafodd y sicrwydd hwn. Sylweddolodd Cyngor y Celfyddydau y byddai hwn yn faes y byddai angen iddo ei fonitro'n agos drwy'r cyfnod adeiladu. Ceisiodd Cyngor y Celfyddydau hefyd liniaru'r risg gyffredinol i ansawdd drwy fynnu bod y penseiri gwreiddiol a gynlluniodd yr adeilad – Percy Thomas Partnership – yn rhan o'r tîm cynllunio ac adeiladu ar bris sefydlog.

## Cynhaliodd y WDA ei asesiad risg ei hun o'r prosiect, ond dibynnodd ar arianwyr eraill i reoli'r risgiau allweddol

1.30 Prin oedd rhan y WDA yn y prosiect. Ym mis Hydref 1997, ysgrifennodd y WDA at y Ganolfan gan nodi y byddai'n ystyried cyfrannu hyd at £4 miliwn i'r Ganolfan, yn amodol ar asesiad pellach ac argaeledd arian. Fodd bynnag, cyn i Fwrdd y WDA gymeradwyo'r prosiect yn ffurfiol, ym mis Mehefin 1999 cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd fod yr arian yn ei le. Mynegodd swyddogion Awdurdod Datblygu Cymru beth pryder nad oedd gwariant ar y Ganolfan yn unol â nodau a chynlluniau corfforaethol y WDA i ganolbwyntio buddsoddiad yn ardaloedd Amcan Un, nad oedd yn cwmpasu Bae Caerdydd. Serch hynny, ym mis Gorffennaf 1999, cymeradwyodd Bwrdd y WDA y prosiect, ar yr amod bod y Prif Weithredwr yn cael rhagor o sicrwydd ar gost a dichonoldeb gweithredol. Ym mis Mehefin 2000, daeth swyddogion y WDA yn ymwybodol bod y Ganolfan yn cael anawsterau i gyrraedd pris fforddiadwy y cytunwyd arno gydag AMEC, a bod risg difrifol y byddai Grovsenor Waterside yn rhoi'r tir ar y farchnad agored. O ganlyniad, penderfynodd y WDA na fyddai'n ystyried unrhyw gais i ryddhau arian hyd nes bod y prosiect yn ddiogel ac yn ddichonadwy.

1.31 Prin yw'r wybodaeth ar gofnodion y WDA sy'n cwmpasu'r cyfnod o ganol 2000, pan ddaeth y Ganolfan â'i chontract gydag AMEC i ben, i fis Ionawr 2002, pan gytunodd y Ganolfan ar y contract gyda Syr Robert McAlpine. Ar ôl i Lywodraeth y Cynulliad gytuno cynorthwyo'r prosiect ym mis Ionawr 2002, comisiynodd y WDA gyngor cyfreithiol gan Eversheds, a gynghorodd nad oedd y prosiect yn gyfan gwbl ar bris sefydlog, ac nid oedd yr holl risg wedi'i drosglwyddo i'r contractwr ac felly roedd risg y gallai cyfanswm y pris gynyddu. Ym mis Mawrth 2002, rai dyddiau cyn i'r Prif Weithredwr roi cymeradwyaeth ffurfiol, cynhaliodd swyddogion y WDA asesiad risg a nododd nifer o risgiau oedd yn bodoli o hyd, yn cynnwys:

- methu â chodi arian gan y sector preifat;
- nid oedd cyfraniad y WDA yn cyd-fynd yn gyfan gwbl â'r nodau;
- gorwario.

1.32 Daeth asesiad risg y WDA i'r casgliad bod: 'cymorth yr Awdurdod i'r fenter yn risg uchel'. Ceisiodd y WDA ddibynnu ar arianwyr eraill i sicrhau bod y risgiau a nodwyd yn cael eu rheoli, gan gynnwys cymal yn ei gytundeb grant yn nodi wrth wneud unrhyw hawliadau am daliad gan y WDA, fod y Ganolfan yn haeru bod yr arianwyr eraill yn fodlon ar y cynlluniau adeiladu a'u hynt. Yn rhannol, roedd y ddibyniaeth hon ar arianwyr eraill yn adlewyrchu barn y WDA am nad oedd arian ar gyfer y Ganolfan yn cyd-fynd yn daclus â'i nodau corfforaethol, na fyddai disgwyl iddo ddarparu rhagor o arian. Ym marn y WDA, byddai Comisiwn y Mileniwm, Cyngor y Celfyddydau a Llywodraeth y Cynulliad yn fwy agored i risg, a hwy fyddai yn y sefyllfa orau i reoli'r risgiau hynny.

# Rhan 2 - Cydweithiodd y arianwyr yn dda i fonitro cynnydd yn ystod y cam adeiladu, ond daeth risgiau ariannol hysbys i'r amlwg a bu'n rhaid i'r Cynulliad warantu benthyciad banc mawr




*Ffynhonnell: Canolfan Mileniwm Cymru/Phil Boorman*

**2.1** Yng ngwanwyn 2002, dechreuodd y gwaith ar adeiladu'r Ganolfan. Ceir heriau penodol pan fydd cyrff y sector cyhoeddus yn ariannu sefydliad annibynnol i godi adeiladau â phroffil uchel. Roedd gan y Ganolfan arianwyr cyhoeddus lluosog, ac mae'r rhan hon o'r adroddiad yn archwilio a oeddent wedi monitro cynnydd yn effeithiol yn ystod y cam adeiladu, ac a oedd hynny'n eu galluogi i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau o ran gwireddu manteision bwriadedig eu buddsoddiad.

## Dangosodd y trefniadau monitro ar y cyd arfer da ar gyfer prosiectau ag ariannwr lluosog

**2.2** Pan wnaethant gytuno i ariannu'r prosiect, gwyddai'r arianwyr fod risgiau sylweddol yn rhan o'r prosiect o hyd, ac y byddai angen iddynt fonitro cynnydd yn agos. Ar ôl llofnodi'r contract adeiladu ym mis Chwefror 2002, cytunodd Llywodraeth y Cynulliad, Comisiwn y Mileniwm a Chyngor y Celfyddydau y byddent yn penodi monitor prosiect ar y cyd newydd i roi goruchwyliaeth fanwl o hynt y prosiect drwy'r cam adeiladu, ac i gadarnhau ceisiadau'r Ganolfan er mwyn rhyddhau arian grant. Ym mis Chwefror 2002, roedd y tri ariannwr wedi penodi ymgynghorwyr adeiladu, Northcroft, i wneud y gwaith. Ym mis Hydref 2002, penododd y WDA Northcroft hefyd i weithredu fel ei fonitor prosiect. Roedd y trefniant hwn yn effeithiol iawn, ac mae'n enghraifft o arfer da ar gyfer prosiectau eraill lle ceir arianwyr lluosog. Yn arbennig, manteision y dull monitor ar y cyd oedd:

- Roedd pob ariannwr yn cael yr un wybodaeth fanwl am gynnydd – roedd y monitor prosiect yn llunio adroddiad misol yn dangos cynnydd o ran codi'r adeilad ei hun, codi arian, cynnydd o ran y maes parcio, a materion yn ymwneud â chynllunio busnes. Roedd yr adroddiadau hyn yn tynnu sylw arianwyr at unrhyw broblemau gwirioneddol neu broblemau posibl a pha gamau adferol oedd yn cael eu cymryd.

- Cyfarfu'r arianwyr bob mis i drafod cynnydd yn seiliedig ar y wybodaeth fanwl, er nad oedd y WDA yn mynd i'r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd. Yn y cyfarfodydd hyn, roedd yr arianwyr, gyda'i gilydd, yn gallu holi staff y Ganolfan am gynnydd mewn meysydd o risg allweddol.



- Roedd monitro ar y cyd yn lleihau'r risg o arianwyr gwahanol yn talu am yr un elfennau adeiladu – mae rheoliadau caffael yn ei gwneud yn ofynnol, cyn iddynt allu rhyddhau eu taliadau grant, bod gan arianwyr brawf bod y prosiect wedi gwario'r arian mewn gwirionedd. Mewn prosiectau cymhleth fel y Ganolfan, mae risg y gall arianwyr gwahanol ariannu'r un gwariant.

**2.3** Oherwydd natur y gwaith adeiladu ni fyddai gwariant y Ganolfan yn rheolaidd; byddai angen iddi wario mwy mewn rhai misoedd nag eraill, wrth i ddarnau gwahanol o waith gael eu cwblhau. Dangosodd rhagolygon cynnar y Ganolfan y byddai angen swm uwch o arian parod o'r sector cyhoeddus dros y flwyddyn gyntaf oherwydd bod angen amser arni i drefnu codi arian a sicrhau arian gan y sector preifat, ac ni fyddai'r rhan fwyaf o'r refeniw o'r cynllun lwfans cyfalaf ar gael tan gamau hwyr y gwaith adeiladu. Cytunodd Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor y Celfyddydau a Chomisiwn y Mileniwm y byddent yn hyblyg ac yn blaen-lwytho eu taliadau, fel bod yr arian a ryddheir bob mis yn uwch dros y flwyddyn gyntaf.

## Drwy gytuno i warantu benthyciad banc Canolfan Mileniwm Cymru, derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad yn ffurfiol y risg y gallai fod angen iddi ariannu unrhyw ddiffygion

**2.4** Er y cytunodd yr arianwyr i flaen-lwytho eu taliadau, roeddent yn gwybod y byddai'r Ganolfan yn dal i wynebu prinder arian parod o fis Hydref 2003 oni bai y gallai sicrhau arian o'r sector preifat yn gyflymach nag a fwriadodd. Prif achos y prinder arian parod oedd na fyddai arian o'r lwfansau cyfalaf yn cael ei dderbyn tan gamau hwyr iawn y gwaith adeiladu. Cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau, nododd y Ganolfan efallai y byddai angen iddi gael rhyw fath o fenthyciad ac, felly, y byddai angen cymorth gan yr arianwyr; o dan y trefniadau lwfans treth gyfalaf, ni fyddai llawer o'r adeilad ar brydles fel ni fyddai modd ei ddefnyddio fel sicrwydd ar gyfer benthyciad. Ymatebodd Llywodraeth y Cynulliad drwy ddweud y byddai'n gwneud yr hyn y gallai i helpu'r Ganolfan os na allai ddatrys y bwlch yn ei harian. Ym mis Chwefror 2003, dywedodd y Ganolfan wrth Lywodraeth y Cynulliad y byddai angen benthyciad o £10 miliwn arni er mwyn cwblhau'r gwaith adeiladu.

**2.5** Ym mis Mehefin 2003, cytunodd Llywodraeth y Cynulliad y byddai'n gwarantu benthyciad banc masnachol ac, yn unol â Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, hysbysodd y Cynulliad Cenedlaethol o'r rhwymedigaeth wrth gefn[10]. Ar y pwynt hwn, dangosodd rhagolygon llif arian y Ganolfan pe bai'n cyflawni ei thargedau codi arian byddai mewn sefyllfa i dalu'r benthyciad yn ôl yn fuan ar ôl i'r Ganolfan agor (Ffigur 6). Nid archwiliodd Llywodraeth y Cynulliad yr opsiwn o ddarparu benthyciad i'r Ganolfan ei hun.

**2.6** Erbyn cytuno â gwarant y benthyciad gyda Banc HSBC ym mis Hydref 2003, dangosodd rhagolygon llif arian y Ganolfan mai £9 miliwn fyddai ei huchafswm gofyniad benthyca, a olygai ei bod yn agos at y terfyn gwarant benthyciad, o £10 miliwn. Ceisiodd y banc sicrwydd gan Brif Weinidog Cymru fod Llywodraeth y Cynulliad yn deall y risg y gallai fod yn ofynnol i HSBC, yn y sefyllfa waethaf, gymryd camau i adennill y benthyciad cyfan, hyd yn oed pe bai'n uwch na chyfanswm y gwarant. Pan gafodd y gwarant ei lofnodi,

10 Rhwymedigaeth wrth gefn yw rhwymedigaeth bosibl sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond os bydd un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt o fewn reolaeth lwyr yr endid.

**Ffigur 6 - Rhagolwg llif arian cyfalaf, Mai 2003**

| | Cyn 2002 £000 | 2002 £000 | 2003 £000 | 2004 £000 | 2005 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| All-lif | 14,293 | 24,625 | 44,342 | 22,158 | - |
| Mewnlif | 15,029 | 26,432 | 37,497 | 24,530 | 1,131 |
| Gwarged blynyddol/(diffyg) | 743 | 1,807 | (3,831) | 157 | 1,131 |
| Sefyllfa arian parod net cronnus | 743 | 2,543 | (1,288) | (1,131) | 0 |

**Noder**

Mae'r ffigurau hyn ar gyfer y llif arian cyfalaf yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys incwm a gwariant heb ei gynllunio o weithrediadau'r Ganolfan ar ôl iddi agor.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

roedd y Ganolfan yn dal i fwriadu talu'r benthyciad yn ôl yn llawn, yn fuan ar ôl iddi agor, gydag arian yr oedd yn bwriadu ei godi o ddigwyddiadau codi arian. Fodd bynnag, roedd hyn yn mynd yn fwy heriol: roedd y Ganolfan wedi dechrau colli tir o ran ei strategaeth codi arian ac roedd costau wedi dechrau codi. Felly cydnabu Llywodraeth y Cynulliad bod tebygolrwydd efallai na fyddai'r benthyciad yn cael ei dalu yn ôl, a nodwyd tri opsiwn, pe bai sefyllfa o'r fath yn codi:

- ei gwneud yn ofynnol i'r Ganolfan dalu'r benthyciad yn ôl dros y tymor hwy drwy ei hincwm gweithredol heb unrhyw gymorth gan Lywodraeth y Cynulliad;
- darparu chwistrelliad cyfalaf i dalu'r benthyciad yn ôl yn llawn; neu
- darparu arian refeniw ychwanegol er mwyn i'r Ganolfan allu talu'r benthyciad yn ôl drwy randaliadau.

## Adeiladwyd Canolfan Mileniwm Cymru ar amser, ond o ganlyniad i gostau uwch a diffygion ariannu roedd amlygiad y Cynulliad i risg yn erbyn benthyciad Canolfan Mileniwm Cymru wedi'i ymestyn y tu hwnt i'r cam adeiladu

**2.7** Agorodd y Ganolfan ar amser ym mis Tachwedd 2004 a chyfanswm cost y prosiect oedd £109.3 miliwn; £5 miliwn dros y gyllideb wreiddiol (Ffigur 7). Roedd yr arianwyr yn gwbl ymwybodol o'r amcangyfrifon costau diwygiedig drwy gydol y gwaith adeiladu. Ym mis Rhagfyr 2001 diwygiodd y Ganolfan yr amcangyfrif o gyfanswm y gost i £105.3 miliwn yn sgîl cynnydd yn y ffioedd cyfreithiol a chostau gweithredol a achoswyd gan rywfaint o oedi cynnar o ran dechrau'r gwaith adeiladu. Ym mis Hydref 2003, cafodd hyn ei ddiwygio unwaith eto i £106.2 miliwn, a'r cynnydd yn bennaf yn sgîl costau staffio a marchnata uwch. Dywedodd Llywodraeth y Cynulliad wrth y Ganolfan nad oedd yn barod i gynyddu ei chyfraniad ac y byddai'n rhaid i arian preifat dalu am y cynnydd hwn. Ym mis Mai 2004, hysbysodd y Ganolfan arianwyr am



## Ffigur 7 - Gorwario

| | Cyllideb £ miliwn | Cost derfynol £ miliwn | Gwahaniaeth £ miliwn |
|---|---|---|---|
| Gwaith adeiladu | 97.6 | 98.2 | 0.6 |
| Staff a gweinyddu | 4.6 | 6.5 | 1.9 |
| Taliadau llog | 0 | 0.6 | 0.6 |
| Datblygu busnes, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus | 1.3 | 1.8 | 0.5 |
| Uchelgais ddiwylliannol (yn cynnwys celfyddydau cyhoeddus a'r gala agoriadol) | 0.7 | 2.3 | 1.5 |
| **Cyfanswm** | **104.2** | **109.3** | **5.1** |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

£2 filiwn ychwanegol y byddai ei hangen ar gyfer costau cyn agor ychwanegol yn gysylltiedig â'r gala agoriadol, rhaglen celfyddydau cyhoeddus y Ganolfan, a thaliadau llog. Yn ystod camau terfynol y gwaith adeiladu, ychwanegwyd £1 filiwn arall i dalu costau gweinyddu ac adeiladu ychwanegol.

**2.8** Er bod cost y gorwario yn eithaf bach o gymharu â graddfa gyffredinol y prosiect, roeddent yn golygu bod angen i'r Ganolfan sicrhau arian preifat ychwanegol, ar ben y targed heriol o £9.6 miliwn a bennwyd ar y dechrau. Roedd codi arian yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y monitor ar y cyd, ac mae cofnodion y cyfarfodydd yn dangos bod yr arianwyr yn rhoi pwysau cyson ar y Ganolfan i wneud cynnydd yn erbyn ei thargedau cerrig milltir ar gyfer codi arian. Rhoddai'r Ganolfan y wybodaeth ddiweddaraf ar ei gweithgarwch codi arian ac ymdrechion i ddenu nawdd, ond nodwyd, oherwydd amgylchiadau economaidd, ei bod yn gynyddol anodd i sicrhau rhoddion. Pan gytunodd Llywodraeth y Cynulliad i warantu'r benthyciad ym mis Hydref 2003, roedd y Ganolfan yn llithro o'i thargedau, ar ôl codi tua £1 miliwn yn erbyn ei chynllun i godi £2 filiwn erbyn yr adeg honno. Cydnabu arianwyr bod yr amodau

## Ffigur 8 - Rhagolwg llif arian cyfalaf y Ganolfan Mai 2004

| | Cyn 2002 £000 | 2002 £000 | 2003 £000 | 2004 £000 | 2005 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| All-lif | 14,293 | 24,625 | 37,186 | 30,016 | - |
| Mewnlif | 15,029 | 26,432 | 31,998 | 25,409 | 4,911 |
| Gwarged blynyddol/(diffyg) | 736 | 1,807 | (5,188) | (4,606) | 4,911 |
| Sefyllfa arian parod net cronnus | 736 | 2,543 | (2,645) | (7,252) | (2,341) |

**Noder**

Mae'r ffigurau hyn ar gyfer y llif arian cyfalaf yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys incwm a gwariant heb ei gynllunio o weithrediadau'r Ganolfan ar ôl iddi agor.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

economaidd yn heriol, ond bod y cyfle i godi arian yn lleihau; gyda'r agoriad yn agosáu, roedd yn gynyddol debygol y byddai rhoddwyr yn dymuno noddi cynyrchiadau penodol, yn hytrach na'r gwaith adeiladu. Roedd cynghorydd Cyngor y Celfyddydau wedi nodi ei bod yn anghyffredin iawn i brosiectau godi arian cyfalaf ar ôl cwblhau'r cam adeiladu.

**2.9** Ym mis Tachwedd 2003, sicrhaodd y Ganolfan yr addewid o rodd o £10 miliwn o'i phrif roddwr, Syr Donald Gordon. Fodd bynnag, roedd i'w thalu dros wyth mlynedd, gyda'r arian i'w rannu rhwng cyfalaf a refeniw, ac felly nid oedd yn mynd i'r afael â'r anghenion llif arian byrdymor. Erbyn mis Mai 2004, roedd y Ganolfan yn dibynnu fwyfwy ar ei benthyciad banc i ariannu gwaith adeiladu ac nid oedd y rhagolygon llif arian bellach yn dangos bod y benthyciad yn cael ei dalu'n ôl (Ffigur 8). Ym mis Gorffennaf 2004, cytunodd Llywodraeth y Cynulliad gynyddu ei gwarant benthyciad i £14 miliwn i gyfateb ag anghenion arian byrdymor y Ganolfan.

**Ffigur 9 - Sefyllfa arian cyfalaf ar ddiwedd y cyfnod cyfalaf**

| | £ miliwn | £ miliwn |
|---|---|---|
| Cyfanswm costau'r prosiect | | 109.3 |
| Arian cyhoeddus a sicrhawyd a rhoddion a gafwyd | | 98.3 |
| Arian cyfalaf heb ei dderbyn hyd yma ar ddiwedd y cyfnod cyfalaf | | 11.0 |
| Arian i'w dderbyn yn 2005 | | |
| Llywodraeth y Cynulliad | 1.8 | |
| Comisiwn y Mileniwm | 1.0 | |
| Cyngor y Celfyddydau | 0.4 | |
| WDA | 0.1 | |
| Prif roddwr | 3.6 | |
| OCC | 0.8 | |
| Yr Urdd | 0.3 | |
| Awdurdod Harbwr Caerdydd | 0.3 | |
| HSBC – cyfraniad ar gyfer y penwythnos agoriadol | 0.2 | |
| Cyngor Sir Caerdydd | 0.1 | |
| **Cyfanswm** | | **8.6** |
| **Bwlch Ariannu (i'w ariannu gan arian prif roddwr yn y dyfodol)** | | **2.3** |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*




**2.10** Erbyn diwedd y cam adeiladu, roedd y bwlch rhwng arian cyfalaf ymrwymedig a chost y prosiect wedi'i lleihau i £2.3 miliwn, yn rhannol yn sgîl £1 miliwn ychwanegol a ddarparwyd gan Gomisiwn y Mileniwm. Fodd bynnag, roedd £11 miliwn o'r arian cyfalaf ymrwymedig hwn heb ei dderbyn hyd yma (Ffigur 9) a chafodd y bwlch ei bontio gan y benthyciad. Golygai hyn bod y Ganolfan yn dechrau'r cyfnod gweithredol gyda benthyciad mawr iawn. Felly, roedd y risg y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei hamlygu i'r risg y byddai'n ofynnol iddi dalu'r benthyciad cyfan neu ran ohono ar ôl y cam adeiladu. Mae gwasanaethu'r benthyciad wedi cael effaith sylweddol ar ddichonoldeb ariannol y Ganolfan, fel y dengys Rhan 4 o'r adroddiad hwn.

# Rhan 3 - Ar y cyfan, roedd yr arianwyr yn ymwybodol o'r risgiau yng nghynllun busnes Canolfan Mileniwm Cymru, ond gallent fod wedi asesu a mynd i'r afael â rhai risgiau allweddol yn well

**3.1** Yn ogystal â chodi adeilad eiconig, roedd y Ganolfan hefyd yn bwriadu rhedeg lleoliad gweithredol llwyddiannus, gan ddenu cynulleidfaoedd sy'n talu i berfformiadau yn ei theatrau. Dichonoldeb y cam gweithredol o bosibl yw'r agwedd ariannol â'r risg uchaf mewn prosiect, a phan na fydd pethau'n mynd fel y bwriadwyd, gall y sector cyhoeddus orfod darparu cymhorthdal refeniw sy'n uwch o lawer na'r gost adeiladu dros yr hirdymor. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried a oedd yr arianwyr wedi asesu'r risgiau oedd yn rhan o gam gweithredol y Ganolfan yn effeithiol.

## Roedd arianwyr wedi asesu cynlluniau busnes cynnar Canolfan Mileniwm Cymru ac roedd ganddynt amheuon am ei gallu i weithredu heb gymhorthdal refeniw

**3.2** Fel y gellid disgwyl gydag unrhyw fusnes cymhleth, esblygodd cynlluniau busnes y Ganolfan ers y trafodaethau cyntaf am y prosiect. Cyn dechrau ar y gwaith adeiladu, archwiliodd yr arianwyr nifer o gynlluniau busnes, yn arbennig cynlluniau a luniwyd ym mis Chwefror 1999 a mis Medi 2000. Dangosodd cynlluniau busnes cynnar y Ganolfan ei bod yn bwriadu bod yn hunangyllidol heb arian refeniw o'r sector cyhoeddus. Yng nghanol 2000, ar gais Llywodraeth y Cynulliad, gwnaeth Bwrdd y Ganolfan ddatganiad o fwriad na fyddai'n gofyn i'r sector cyhoeddus am gymhorthdal refeniw.

### Wrth asesu dichonoldeb ceisiodd Llywodraeth y Cynulliad weithredu gwersi a ddysgwyd o brosiectau proffil uchel eraill

**3.3** Pan ddarparodd Llywodraeth y Cynulliad arian i'r Ganolfan ar gyfer gwaith ailgynllunio ym mis Hydref 2000 (paragraff 1.11), fe'i gwnaeth yn ofynnol i'r Ganolfan gynnal gwaith pellach i ddangos dichonoldeb ei chynllun busnes (dyddiedig Medi 2000) – Ffigur 10. Wrth osod yr amodau hyn roedd Llywodraeth y Cynulliad, a rhaid ei chanmol am hyn, yn ceisio dysgu o waith archwilio ar brosiectau proffil uchel eraill, yn enwedig Dôm y Mileniwm, lle roedd rhagolygon nifer yr ymwelwyr a rhagolygon refeniw wedi bod yn optimistaidd iawn. Rhwng Medi 2000 a Mawrth 2001, comisiynodd y Ganolfan nifer o adolygiadau yn ei chynllun busnes:

- Adolygodd yr ymgynghorwyr celfyddydau, M&C Saatchi Arts, ragolygon cynulleidfaoedd a daethpwyd i'r casgliad mai'r ffigurau presenoldeb realistig fyddai 432,000 y flwyddyn, gan godi i 488,000 os gallai'r ganolfan ddenu perfformiadau o'r radd flaenaf. Daeth i'r casgliad hefyd y gellid denu 350,000 o ymwelwyr ychwanegol i ddigwyddiadau/cyfleusterau eraill yn yr adeilad.
- Nododd ymchwil gymharol gan yr ymgynghorydd theatr Graham Devlin risgiau'n gysylltiedig â'r farchnad ar gyfer cynyrchiadau cerddorol ar raddfa fawr, gan ddod i'r casgliad y byddai prisiau tocynnau'r Ganolfan yn gystadleuol, a bod lefelau staffio a chostau gorbenion yn unol â chymharwyr.



- Cynhaliodd yr archwilwyr, KPMG, adolygiad risg a nododd ac a raddiodd risgiau lefel uchel o ran camau adeiladu a gweithredol a nodwyd camau gweithredu y gallai'r Ganolfan eu cymryd i liniaru risgiau.

**Ffigur 10 - Crynodeb o gynllun busnes Medi 2000 y Ganolfan**

| | 2004 £000 | 2005 £000 | 2006 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredol | 3,207 | 3,193 | 3,308 |
| Gwariant gweithredol | 3,172 | 2,992 | 3,106 |
| Elw/colled | 35 | 202 | 202 |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**3.4** Ym mis Ebrill 2001, comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad PwC i adolygu cynllun busnes Medi 2000 y Ganolfan. Nid oedd yn rhan o'r aseiniad hwn i PwC ddilysu'n annibynnol y rhagolygon a wnaed gan reolwyr y Ganolfan yn y cynllun busnes. Nododd PricewaterhouseCoopers nifer o feysydd risg (Ffigur 11) yng nghynllun busnes y Ganolfan. Cynhaliodd PricewaterhouseCoopers ddadansoddiad o sensitifrwydd hefyd, gan brofi effaith unrhyw newidiadau yn rhagolygon y cynllun busnes. Dangosodd y rhain pe bai rhai o'r risgiau a nodwyd yn codi, gallai'r Ganolfan wynebu diffyg gweithredol blynyddol o hyd at £500,000.

**Ffigur 11 - Crynodeb o asesiad PwC o gynllun busnes Medi 2000 y Ganolfan**

| Maes risg | Risg a nodwyd |
|---|---|
| Risg y farchnad | ■ cystadleuaeth am amser hamdden;<br>■ fel lleoliad y tu allan i ganol y ddinas, nid oedd Bae Caerdydd wedi'i brofi fel lleoliad;<br>■ codi arian - y farchnad yn orlwythog, ac mae nawdd rhaglenni fel arfer yn mynd i gynhyrchwyr, nid i'r lleoliad sy'n cynnal;<br>■ manwerthu – efallai y bydd angen creu cytundebau cymhelliant a gall rhenti uwch fod yn anodd eu cyflawni. |
| Risgiau'r rhaglen | ■ byddai 270 o berfformiadau'n her o ystyried bod OCC yn defnyddio'r prif lwyfan am 18 wythnos ond gan roi 30 o berfformiadau'n unig (gweler y blwch isod);<br>■ byddai sioeau cerdd yn arbennig o heriol, a byddai angen i'r Ganolfan ddenu cynulleidfaoedd 3.5 gwaith yn fwy na'r rhai oedd yn mynd i sioeau cerdd yn y Theatr Newydd yng Nghaerdydd;<br>■ gallai newidiadau yn y farchnad ar gyfer sioeau cerdd arwain at delerau llai ffafriol;<br>■ byddai angen i'r Ganolfan ddenu ugain gwaith y gynulleidfa ar gyfer dawns/balê â'r Theatr Newydd - gallai fod yn heriol;<br>■ i gloi, byddai angen twf sylweddol yn y farchnad leol ac roedd y rhagamcanion ar gyfer sioeau cerdd yn ymddangos yn arbennig o heriol. |
| Risgiau cynnyrch | ■ cynnydd mewn costau cyfalaf, y gallai fod angen eu hariannu drwy fenthyciadau'r sector preifat;<br>■ maes parcio – gallai arwain at gynnydd mewn costau cyfalaf a'i gwneud yn ofynnol cael cymorth refeniw os na fyddai modd cael partner o'r sector preifat. |
| Risg ariannol | ■ Nododd PwC ffrydiau incwm risg uchel:<br>- Sioeau cerdd;<br>- Pantomeim;<br>- taliadau nôl i gwmnïau cynhyrchu am staff technegol a chostau gweithredol;<br>- nawdd. |

**Archwiliwyd cynllun Medi 2000 gan Gyngor y Celfyddydau ac roedd yn pryderu'n arbennig am y posibilrwydd o ddiffygion annisgwyl a'r effaith ar y sefydliadau preswyl**

**3.5** Archwiliwyd cynlluniau busnes y Ganolfan gan Gyngor y Celfyddydau ar gamau amrywiol yn y blynyddoedd cynnar. Yn arbennig, roedd Cyngor y Celfyddydau wedi archwilio cynllun busnes Medi 2000 y Ganolfan yn fanwl, a heriodd Gadeirydd a Phrif Weithredwr y Ganolfan ar y rhagdybiaethau sylfaenol mewn cyfarfod ym mis Chwefror 2001. Ym mis Mawrth 2001, ysgrifennodd Cyngor y Celfyddydau at Lywodraeth y Cynulliad gan fynegi pryder:

- nad oedd, hyd yma, ganlyniadau ariannol hysbys ar gyfer y cwmnïau preswyl a gaiff eu noddi gan Gyngor y Celfyddydau, yn arbennig:
  - costau gwasanaeth;
  - costau cyflwyno rhaglen celfyddydau cyhoeddus arfaethedig y Ganolfan;
- roedd prinder cynyrchiadau o safon uchel, yn enwedig sioeau cerdd; a
- roedd y cyllidebau marchnata a staffio'n ymddangos yn denau iawn.

**3.6** Roedd Cyngor y Celfyddydau'n pryderu'n benodol am effaith unrhyw ddiffygion heb eu rhagweld a dywedodd wrth Lywodraeth y Cynulliad ei fod yn pryderu am ddigonolrwydd cynlluniau wrth gefn y Ganolfan. Dywedodd Cyngor y Celfyddydau ei bod yn ‘amlwg y bydd angen cymhorthdal sylweddol yn barhaus’.

**3.7** Ym mis Mawrth 2001 adolygodd cynghorydd allanol Cyngor y Celfyddydau, Louis K Fleming, gynllun Medi 2000 a nodwyd nifer o risgiau:

> **Opera Cenedlaethol Cymru a'r ‘nosweithiau tywyll’**
>
> Yr angen i ddod o hyd i gartref newydd i OCC oedd un o'r ysgogwyr gwreiddiol y tu ôl i'r cysyniad o'r Ganolfan a ffactor sylweddol o ran denu arian cyfalaf. Mae poblogrwydd perfformiadau gan OCC yn y Ganolfan (gweler Atodiad 1) yn dystiolaeth o lwyddiant y cydweithredu rhwng y ddau barti. Fodd bynnag, un o feysydd allweddol risg ariannol a nodwyd ym mhob asesiad o gynllun busnes y Ganolfan fu'r incwm a gollwyd gan y Ganolfan yn deillio o angen y OCC i ddefnyddio'r theatr i ymarfer ynddi. Roedd cynlluniau busnes wedi rhagweld y byddai hyd at 90 o “nosweithiau tywyll” o'r fath bob blwyddyn pan na allai'r Ganolfan lwyfannu perfformiadau. Er bod OCC wedi cytuno i ddigolledu'r Ganolfan am ddefnyddio'r llwyfan, roedd y digolledu hwn yn sylweddol is na'r amcangyfrif o refeniw cyfartalog y Ganolfan bob nos yn sgîl cynyrchiadau a manwerthu (oherwydd byddai llai o bobl yn ymweld â'r adeilad ar y nosweithiau tywyll). I ryw raddau aed i'r afael hefyd â'r mater hwn gan arian refeniw ychwanegol Llywodraeth y Cynulliad a ryddhawyd i'r Ganolfan yn 2007 (paragraff 4.18). Mae OCC bellach wedi cytuno i leihau nifer y nosweithiau tywyll sydd eu hangen arnynt o 90 y flwyddyn i 70 y flwyddyn, ac mae trafodaethau ar y goblygiadau ariannu i'r Ganolfan yn parhau (paragraff 4.22).

- oni allai'r Ganolfan ddarparu mannau parcio digonol, byddai'n cael anhawster denu digon o ymwelwyr;
- roedd yr ymchwil sylfaenol ar gyfer rhagolygon y Ganolfan yn gadarn, ond dylid bod wedi ystyried ffactorau demograffig – yn enwedig incwm ac addysg – oherwydd gallai'r rhain fod wedi dangos marchnad lai i'r Ganolfan;
- mae'n bosibl bod y gyllideb farchnata wedi'i thanddatgan; os na fyddai niferoedd ymwelwyr yn cael eu cyrraedd, byddai angen rhagor o farchnata.

Fodd bynnag, nid oedd Cyngor y Celfyddydau wedi archwilio cynllun busnes diwygiedig Mai 2001 i brofi a aed i'r afael â'r risgiau a nodwyd.



**Nid oedd y WDA wedi asesu unrhyw gynlluniau iddo'i hun, nid oes ganddo unrhyw rai ar gofnod a dibynnodd ar arianwyr eraill i asesu risgiau gweithredol**

**3.8** Ni wnaeth y WDA asesu'n annibynnol unrhyw rai o gynlluniau busnes y Ganolfan, ac ar y cyfan mae wedi dibynnu ar arianwyr eraill am sicrwydd o ran dichonoldeb hirdymor y Ganolfan. Roedd y papur a gyflwynwyd i Fwrdd y WDA ym mis Gorffennaf 1999, yn ceisio cymeradwyaeth i ariannu'r prosiect wedi nodi canfyddiadau asesiad gan y cyfrifyddion BDO Stoy Hayward, yn cynnwys y posibilrwydd y gallai'r ganolfan fynd i ddiffyg gweithredol blynyddol o tua £450,000. Cymeradwyodd y Bwrdd ariannu'r prosiect yn amodol ar gael sicrwydd pellach ar ddichonoldeb hirdymor. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gofnodion o roi sicrwydd o'r fath, ac mae cofnodion y WDA yn dangos, pan gytunwyd i ariannu'r prosiect, nad oedd swyddogion y WDA yn gwarantu dichonoldeb y cynllun busnes. Mae'r WDA wedi gwneud cytundeb arianwyr eraill o ddichonoldeb hirdymor gweithrediadau'r Ganolfan yn un o amodau ei gytundeb grant gyda'r Ganolfan, gan ei gwneud yn ofynnol bod y Ganolfan yn cynnwys rhoi cadarnhad bod arianwyr eraill yn fodlon ar gynnwys y cynllun busnes gydag unrhyw geisiadau am daliad.

## Nid oedd asesiadau arianwyr yn canolbwyntio'n ddigonol ar gostau gweithredu

**3.9** Roedd yr asesiadau a gynhaliwyd ac a gomisiynwyd gan yr arianwyr yn tueddu i ganolbwyntio ar brofi dibynadwyedd y rhagolygon incwm, yn hytrach na chostau gorbenion. Roedd hyn yn adlewyrchu bwriad yr arianwyr i ddysgu gwersi o brosiectau proffil uchel eraill lle bu'r rhagolygon cynulleidfaoedd ac incwm yn rhy optimistaidd. Roedd y Ganolfan ei hun wedi comisiynu gwaith ar ddiwedd 2000 ar amcangyfrif costau rheoli cyfleusterau, a lywiodd ei gynllun busnes ac a rannwyd gyda Llywodraeth y Cynulliad fel tystiolaeth iddi ystyried costau oes gyfan yr adeilad. Nododd yr ymchwil gymharol a gynhaliwyd gan yr ymgynghorydd theatr Graham Devlin ar gyfer y Ganolfan ar ddechrau 2001 fod costau gorbenion a staffio a ragwelwyd yn unol â'r rhai yn Hippodrome Birmingham. Yn ei adroddiad i Lywodraeth y Cynulliad, dywedodd PwC fod amcangyfrifon costau gwasanaethau yn risg uchel am eu bod yn seiliedig ar ffigurau hanesyddol, ond bod costau staff yn ymddangos yn ddibynadwy.

## Roedd arian refeniw i Ganolfan Mileniwm Cymru a'r sefydliadau preswyl wedi mynd i'r afael â rhai risgiau, ond nid oedd arianwyr wedi asesu goblygiadau ariannol newidiadau i ddyheadau diwylliannol Canolfan Mileniwm Cymru yn llawn

**3.10** Ym mis Mawrth 2001, gwnaeth y Ganolfan gais bod Llywodraeth y Cynulliad yn darparu £750,000 i gynorthwyo rhaglen o safon ryngwladol well yn y ganolfan, a gweithgareddau rhaglen gyhoeddus ychwanegol. Nodwyd yr achos dros raglen well yn un o bapurau'r Ganolfan, a amlinellodd 'uchelgais diwylliannol' diwygiedig y Ganolfan, ac esboniodd fod y cynllun busnes blaenorol yn seiliedig ar y math o safon rhaglen a geir mewn theatrau rhanbarthol ledled y DU. Byddai'r rhaglen well yn cynnwys cyflwyno cynyrchiadau o safon uwch, oedd yn enwog yn rhyngwladol, yn y

Ganolfan. Amcangyfrifodd y papur y byddai'r rhaglen well hon yn costio £750,000 yn fwy na rhaglen o safon theatr ranbarthol.

3.11 Ym mis Ebrill 2001, wrth roi'r newyddion diweddaraf i'r Cynulliad ar hynt y prosiect (paragraff 1.15), dywedodd y Gweinidog Cyllid ar y pryd wrth y Cynulliad y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn darparu arian blynyddol tuag at y prosiect pe bai'r prosiect yn mynd rhagddo, yn cynnwys:

- £750,000 o gymorth refeniw i'r Ganolfan;
- £450,000 i'r Ganolfan tuag at ‘gronfa ad-dalu’ i gynorthwyo costau cynnal a chadw hirdymor;
- £800,000 wedi'i dalu drwy Gyngor y Celfyddydau i rai o'r sefydliadau preswyl er mwyn talu am gostau ychwanegol cael eu lleoli yn y Ganolfan.

3.12 Yn ogystal â'r ddau brawf ar adeiladu (paragraff 1.15), nododd y Gweinidog Cyllid drydydd prawf: er mwyn i'r prosiect fynd rhagddo, roedd yn rhaid rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Diwylliant y gallai'r prosiect weithredu o fewn y setliad cymhorthdal refeniw a amlinellwyd uchod.

3.13 Ar ôl araith y Gweinidog Cyllid, datblygodd y Ganolfan gynllun newydd, a anfonwyd at yr arianwyr ym mis Mai 2001. Roedd y cynllun diwygiedig yn cynnwys y refeniw o £750,000 gan Lywodraeth y Cynulliad a rhagwelodd lai o incwm theatr, a threfniadau rhannu elw llai uchelgeisiol gyda chynhyrchwyr, er mwyn mantoli'r gyllideb (Ffigur 12). Nid oes tystiolaeth bod yr arianwyr wedi gwerthuso effaith y diwygiadau i'r cynllun, yn arbennig bwriad y Ganolfan i gyflwyno rhaglen gelfyddydol ryngwladol well a drutach. Ym mis Ebrill 2001, roedd PwC wedi cynghori y byddai angen cymhorthdal refeniw ar gyfer rhaglen gelfyddydol ryngwladol, ond ni roddwyd barn ar ba lefel cymhorthdal fyddai'n

**Ffigur 12: Cymhariaeth o ragolygon blwyddyn un yng nghynlluniau busnes Medi 2000 a Mai 2001**

| | Cynllun Medi 2000 | Cynllun Mai 2001 |
|---|---|---|
| Incwm theatr | £6.5 miliwn | £6.0 miliwn |
| Cyfran y Ganolfan o incwm theatr | 28% | 18% |
| Niferoedd cynulleidfa | 414,000 | 338,000 |
| Gwarged/(diffyg) | £22,000 | £30,000 |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

ofynnol. Roedd ymchwil gymharol - gan yr ymgynghorydd theatr Graham Devlin - a lywiodd gynlluniau busnes blaenorol y Ganolfan (paragraffau 3.3 a 3.9) yn seiliedig ar gymharu rhagolygon cynllun busnes y Ganolfan â phrofiad theatrau rhanbarthol ledled y DU. Nid oedd yr arianwyr wedi archwilio a oedd y cymariaethau hynny'n ddilys o hyd ar gyfer lleoliad celfyddydau rhyngwladol.

3.14 Dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrthym y byddai penderfyniadau ar a ddylid comisiynu dadansoddiad ffurfiol o newidiadau i gynllun busnes y Ganolfan ai peidio wedi'u llywio gan y dystiolaeth a oedd ar gael eisoes o astudiaethau cynharach a barn y Ganolfan o ran a oedd yr arian refeniw yn ddigonol. Fodd bynnag, adlewyrchodd cynllun Mai 2001 newid sylweddol yn uchelgeisiau diwylliannol y Ganolfan a hwn oedd y cyfle olaf am ailystyriaeth fanwl o ddichonoldeb y cynllun yn sgîl y newidiadau, cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Cafodd yr unig ddadansoddiad manwl o gynllun Mai 2001 ei gynnal gan Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad, yn unol â'r prawf a osodwyd gan y Gweinidog Cyllid. Yn ei haraith, cydnabu'r Gweinidog Cyllid nad oedd aelodau o'r Pwyllgor Diwylliant yn arbenigwyr o ran asesu



cynlluniau busnes, ond nodwyd iddynt fod yn gadarn wrth graffu ar gynlluniau hyd yma. Ym mis Mai 2001, archwiliodd y Pwyllgor Diwylliant y cynllun a holi Cadeirydd y Ganolfan a staff ar fanylion y cynllun. Yn ddiweddarach y mis hwnnw, dywedodd y Pwyllgor wrth y Gweinidog Diwylliant ei fod yn fodlon bod y cynllun busnes yn rhesymol. Mae'n anarferol i un o bwyllgorau'r Cynulliad ddarparu'r unig archwiliad annibynnol o gynllun busnes ar gyfer prosiect mor gymhleth. Er bod manteision posibl o ran sicrhau craffu a chymorth Aelodau yn y ffordd hon, nid oedd hyn yn ddigon i gymryd lle dadansoddiad manwl arbenigol gan swyddogion neu gynghorwyr annibynnol.

## Pan gafodd y prosiect ei gymeradwyo, gwyddai Llywodraeth y Cynulliad fod risg y byddai angen cymorth refeniw pellach ar Ganolfan Mileniwm Cymru yn y dyfodol

**3.15** Ym mis Ionawr 2002, cyn cymeradwyo'r prosiect, roedd swyddogion wedi cynghori'r Gweinidog Diwylliant ar y pryd fod risg y byddai angen cymorth refeniw ychwanegol ar y Ganolfan yn y dyfodol. Nododd swyddogion, fel sy'n ofynnol gan brawf y Gweinidog Cyllid, fod y Pwyllgor Diwylliant wedi rhoi sicrwydd iddo'i hun o ran cadernid y cynllun busnes. Roedd swyddogion hefyd wedi cynghori'r Gweinidog Diwylliant y bu'r cynllun busnes yn destun adolygiadau annibynnol gan PwC a chan ymgynghorwyr ar gyfer Comisiwn y Mileniwm, er nad oeddent wedi nodi'n benodol fod y rhain yn adolygiadau o fersiynau cynharach o'r cynllun, ac ni esboniwyd ychwaith nad oedd PwC wedi cadarnhau'r rhagolygon rheoli yn annibynnol (paragraff 3.4). Pan bleidleisiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y cyfarfod llawn i groesawu'r prosiect ym mis Ionawr 2002, cyfeiriodd y Gweinidog Diwylliant yn gyffredinol at risgiau niferoedd ymwelwyr, gan gyfeirio at y Ganolfan Celfyddydau Gweledol yng Nghaerdydd fel enghraifft[11], ond ni thynnwyd sylw manwl at y risg benodol y gallai fod angen rhagor o gymorth refeniw ar y Ganolfan. Nododd y Gweinidog Diwylliant fod y Pwyllgor Diwylliant wedi cael sicrwydd o gadernid y cynllun busnes a chyfeiriodd at y ddau adolygiad annibynnol, ond ni nodwyd bod rhain yn adolygiadau o fersiynau cynharach o'r cynllun nac at y ffaith nad oedd rhagolygon y Ganolfan wedi'u hadolygu.

## Nid oedd gan arianwyr ddull cyfunol o fynd i'r afael â diwygiadau Canolfan Mileniwm Cymru i'w chynllun busnes ar ôl i'r gwaith adeiladu ddechrau

**3.16** Ar ôl i'r gwaith adeiladu ddechrau, roedd yr arianwyr, yn enwedig Cyngor y Celfyddydau, wedi rhoi pwysau ar y Ganolfan i fireinio ei chynllun busnes gweithredol. Ym mis Rhagfyr 2002, lluniodd y Ganolfan gynllun diwygiedig, a ddangosodd ddiffyg gweithredu blynyddol o bron £600,000 ar ôl y cymhorthdal refeniw o £750,000 gan Lywodraeth y Cynulliad. Roedd cynghorydd annibynnol Cyngor y Celfyddydau, Louis K Fleming, wedi archwilio'r cynllun a daethpwyd i'r casgliad y byddai angen cynyddu'r cymhorthdal refeniw blynyddol. Roedd yr arianwyr wedi trafod y cynllun yn y cyfarfod monitro ar y cyd ym mis Mawrth 2003, ond erbyn hyn, roedd y Ganolfan wedi penodi Prif Weithredwr newydd, a fu'n gweithio yn Nhŷ Opera Sydney yn flaenorol, a chytunodd yr arianwyr aros i weld pa effaith y gallai ei syniadau ei chael ar y cynllun.

11 Yr Archwilydd Cyffredinol, Tachwedd 2001, Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan Celfyddydau Gweledol

3.17 Ym mis Hydref 2003, lluniodd y Ganolfan gynllun busnes newydd yn dangos diffyg rhagweledig o £1.4 miliwn, ar ôl cymhorthdal refeniw Llywodraeth y Cynulliad o £750,000. Roedd gan Gyngor y Celfyddydau a Llywodraeth y Cynulliad syniadau gwahanol o ran sut i ymateb i'r cynllun hwn. Roedd Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno rheoli uchelgeisiau'r Ganolfan, a dweud wrthi na fyddai'n darparu unrhyw gymorth refeniw pellach. Mynnai Llywodraeth y Cynulliad fod y Ganolfan yn paratoi cynllun busnes newydd a oedd yn mantoli'r gyllideb o fewn lefelau dynodedig y cymhorthdal refeniw. Roedd swyddogion wedi diystyru'n llwyr y posibilrwydd o gomisiynu adolygiad annibynnol, oni bai bod y cylch gorchwyl yn cynnwys cynorthwyo'r Ganolfan i ddatblygu cynllun busnes a oedd yn mantoli'r gyllideb.

3.18 Ar yr un pryd, penododd Cyngor y Celfyddydau, yn unol â'i weithdrefnau safonol ar gyfer prosiectau cyfalaf, dîm o ymgynghorwyr celfyddydol annibynnol i adolygu'r cynllun busnes. Daeth yr ymgynghorwyr i'r casgliad y gallai'r diffyg rhagweledig o £1.4 miliwn fod wedi'i danamcangyfrif yn ddifrifol ac efallai y byddai angen mwy o gymhorthdal refeniw, cymaint â £3 miliwn o bosibl. Archwiliodd yr ymgynghorwyr yr uchelgeisiau diwylliannol a daethpwyd i'r casgliad y byddai unrhyw leihad yn y rhaglen o safon uchel arfaethedig i gyflawni ei chenhadaeth yn cael effaith andwyol yn artistig ac yn ariannol. Cafodd canfyddiadau'r adroddiad eu trafod gyda Llywodraeth y Cynulliad.

3.19 Ar ôl trafodaethau manwl â Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor y Celfyddydau ac ymgynghorwyr, cytunodd y Ganolfan y byddai'n paratoi cynllun newydd yn dangos sefyllfa mantoli'r gyllideb dros y pum mlynedd cyntaf. Yna byddai'r cynllun hwn yn cael ei adolygu gan yr ymgynghorwyr. Cydnabu'r arianwyr y byddai mantoli'r gyllideb yn nod optimistaidd; roedd Cyngor y Celfyddydau o'r farn y byddai refeniw pellach gan Lywodraeth y Cynulliad yn ofynnol ar ôl dim ond dwy flynedd, a chytunodd Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor y Celfyddydau y byddai angen ystyried y cymhorthdal refeniw eto yn y dyfodol.

## Gwyddai'r arianwyr fod cynllun busnes terfynol Canolfan Mileniwm Cymru yn risg uchel, ond nid oeddent yn ddigon ymwybodol o'r risgiau ariannol oedd yn weddill wrth i'r Ganolfan agosáu at ei dyddiad agor

### Cytunodd Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor y Celfyddydau ar gynllun busnes terfynol â risg uchel a oedd yn destun craffu annibynnol digonol ond a oedd ond yn gynaliadwy yn y byrdymor

3.20 Ym mis Gorffennaf 2004, lluniodd y Ganolfan ei chynllun busnes terfynol cyn agor, ac erbyn hynny roedd y rhaglen wedi'i harchebu a phrin roedd y lle i arianwyr ddylanwadu ar y cynlluniau na'u newid. Dangosodd y cynllun y byddai'r Ganolfan yn rhedeg ar golled weithredol o £1.2 miliwn yn ei blwyddyn gyntaf, a fyddai lleihau i £0.5 miliwn ym Mlwyddyn 3 – Ffigur 13.

**Ffigur 13 - Cynllun busnes y Ganolfan Gorffennaf 2004**

| | Blwyddyn 1 £000 | Blwyddyn 2 £000 | Blwyddyn 3 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3,544 | 3,995 | 4,240 |
| Gwariant | 4,733 | 4,755 | 4,769 |
| Elw/colled | (1,189) | (760) | (529) |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*





*Ffynhonnell: Canolfan Mileniwm Cymru/John Evans*

**3.21** Roedd y Ganolfan yn bwriadu ariannu'r colledion gweithredol hyn drwy ddefnyddio'r gronfa ad-dalu o £450,000 a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i dalu am gostau cynnal a chadw, fel cymorth refeniw. Roedd hefyd yn bwriadu defnyddio rhan o arian y prif roddwr a rhodd untro arall er mwyn mantoli'r gyllideb. Yn amlwg ni fyddai'r sefyllfa ariannu hon yn gynaliadwy yn y tymor hwy; byddai angen defnyddio'r gronfa ad-dalu at ddibenion cynnal a chadw fel y'i bwriadwyd, a byddai arian y prif roddwr yn dod i ben. Byddai'r lleihad mewn diffyg dros amser yn dibynnu ar y Ganolfan yn codi o lefelau llawer uwch o roddion o'r sector preifat – hyd at £1 miliwn erbyn Blwyddyn 3. Ym mis Ebrill 2001, roedd PwC wedi cynghori bod nawdd o £150,000 yn darged uchelgeisiol, risg uchel. Penododd Cyngor y Celfyddydau'r un ymgynghorwyr a adolygodd gynllun Hydref 2003 i archwilio'r fersiwn diwygiedig. Ym mis Medi 2004, daeth yr ymgynghorwyr i'r casgliad bod 'posibilrwydd credadwy y bydd y sefydliad yn gallu cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2005. Fodd bynnag, mae yna risg uchel hefyd y bydd y sefydliad yn wynebu diffyg sylweddol heb ei gynllunio (dros £200,000) a phrin yw'r opsiynau sydd ar gael i'r Ganolfan er mwyn cymryd camau osgoi'n brydlon. Oherwydd y risg uchel o golledion, cynghorodd yr ymgynghorwyr y dylai'r Ganolfan ddatblygu polisïau clir ar ddiffygion heb eu rhagweld a chynlluniau wrth gefn. Ni wnaeth Cyngor y Celfyddydau na Llywodraeth y Cynulliad, a welodd yr adroddiad hefyd, waith dilynol ar yr argymhellion hyn.

**Ni wnaeth Llywodraeth y Cynulliad asesu a mynd i'r afael â'r risgiau ariannol ar adeg agor y Ganolfan, gan ddewis yn hytrach aros i weld beth fyddai'n digwydd mewn gwirionedd**

**3.22** Ni wnaeth y sefyllfa mantoli'r gyllideb ar gyfer y Ganolfan yn ei chynllun busnes Gorffennaf 2004 ystyried effaith gorfod talu ei benthyciad banc yn ôl. Mewn dadansoddiad o sensitifrwydd ar wahân, cyfeiriodd cynllun busnes y Ganolfan at y posibilrwydd y gallai fod, yn y sefyllfa waethaf, ddiffyg cyfalaf o £2 filiwn, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol cael taliad o £500,000 yn 2005 i dalu'r llog a'r cyfalaf dros y tymor canolig. Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid £2 filiwn oedd y sefyllfa waethaf bosibl o bell ffordd. Fel y dengys Ffigur 8, roedd y Ganolfan wedi rhagweld cael benthyciad o £7 miliwn o leiaf ar ddiwedd 2004, gan leihau i ychydig dros £2 filiwn ar ddiwedd 2005 pe bai'r Ganolfan yn cyflawni ei thargedau codi arian (Rhan 2). Ar y sail hon, diffyg o £2 filiwn yn 2005 oedd y sefyllfa orau, yn hytrach na'r sefyllfa waethaf. Yn flaenorol roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod efallai y byddai'n rhaid iddi archwilio ei hopsiynau pe na bai'r Ganolfan yn talu'r benthyciad yn ôl cyn agor (paragraff 2.6), ond nid oes tystiolaeth ar gofnod bod yr arianwyr, ar adeg agor y Ganolfan, wedi asesu'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r benthyciad. Nid oeddent, er enghraifft, wedi gofyn i'r Ganolfan ddiweddaru'r rhagolygon llif arian misol a baratowyd ar gyfer arianwyr i gynnwys y llif arian gweithredol. Byddai rhagolygon llif arian cyfunol wedi dangos sut a phryd y byddai'r benthyciad yn cael ei dalu yn ôl ac effaith y taliadau llog ar y cynllun busnes.

**3.23** Dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrthym eu bod yn ymwybodol bod risgiau ynghlwm wrth y cynllun busnes, a bod posibilrwydd y byddai angen rhagor o gymhorthdal ar y Ganolfan. Ond am nad oedd y Ganolfan wedi agor hyd yma a sefydlu'r incwm a chostau gwirioneddol, nid oedd swyddogion yn teimlo eu bod yn gallu cyfiawnhau unrhyw gynnydd mewn arian cyn i'r Ganolfan agor. Yn hytrach, penderfynwyd aros i weld beth fyddai'n digwydd mewn gwirionedd ar ôl i'r Ganolfan agor. Dywedodd swyddogion wrthym fod eu dull yn adlewyrchu dymuniad mwy cyffredinol i sicrhau y dylai'r arian cyhoeddus a ddarparwyd fod ar lefel nad oedd yn uwch na'r hyn oedd yn ofynnol i sicrhau bod amcanion y Llywodraeth ar gyfer y prosiect yn cael eu cyflawni tra'n cadw cymhelliant clir i'r Ganolfan weithredu mor fasnachol â phosibl.

**3.24** Yn ein barn ni, nid oedd yn wir bod opsiynau Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cyfyngu i ddarparu mwy o arian refeniw ai peidio, fel yr awgrymir gan y dull a amlinellir gan swyddogion. Roedd yn rhesymol rhoi pwysau ar y Ganolfan i gyflawni ei thargedau, ond roedd angen i'r pwysau cyffredinol hwn gael ei ategu gan gynllun clir ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn risgiau – fel y gwnaed gan yr arianwyr yn ystod y cam adeiladu. Gan nad oedd yr arianwyr wedi asesu'r risgiau gweddilliol pan agorwyd y Ganolfan, ni ellid datblygu cynllun monitro yn seiliedig ar risg cyn y dyddiad agor.



# Rhan 4 - Roedd diffygion o ran monitro ar ôl agor na aed i'r afael â hwy hyd nes i Ganolfan Mileniwm Cymru wneud cais am arian cyhoeddus ychwanegol i osgoi argyfwng ariannol

**4.1** Agorodd y Ganolfan i'r cyhoedd ym mis Tachwedd 2004. Ar yr adeg honno, roedd dau o'r arianwyr, Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor y Celfyddydau, wedi cadw diddordeb yng ngwaith parhaus y Ganolfan. Roedd gan Lywodraeth y Cynulliad ddiddordeb ariannol uniongyrchol fel gwarantwr benthyciadau banc i'r Ganolfan, fel darparwr grant refeniw parhaus ac fel yr ariannwr y byddai'r Ganolfan yn troi ato pe bai'n wynebu anawsterau ariannol. Nid oedd Cyngor y Celfyddydau yn un o arianwyr refeniw'r Ganolfan ond parhaodd i ariannu'r cwmnïau preswyl yno a chadwodd ddiddordeb mewn sicrhau bod y Ganolfan yn rhoi'r cyfleoedd artistig a addawyd pan ddyfarnodd Cyngor y Celfyddydau ei grantiau cyfalaf. Ar ôl agor, cafodd y Ganolfan nifer o lwyddiannau: denodd dros filiwn o bobl i'w pherfformiadau, ac mae dros dair miliwn wedi ymweld ar gyfer y digwyddiadau am ddim, yr allfeydd manwerthu, a'r cyfleusterau eraill a gynigir gan y Ganolfan. Fodd bynnag, mae'r Ganolfan hefyd wedi cael rhai problemau ariannol sydd wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried a yw'r arianwyr wedi monitro cynnydd y Ganolfan yn effeithiol ers iddi agor.

**4.2** Cafwyd bod rhai diffygion o ran monitro:

- Yn achos Llywodraeth y Cynulliad, roedd diffygion difrifol yn y trefniadau a roddwyd ar waith. Roedd proses gwbl annigonol o gadw cofnodion gan swyddogion wedi rhwystro eu gallu i fonitro'r Ganolfan. Mae absenoldeb cofnodion cywir ynghyd â newidiadau staff wedi atal swyddogion Llywodraeth y Cynulliad rhag meddu ar y ddealltwriaeth angenrheidiol o arian a busnes y Ganolfan ac felly o'r canlyniadau ariannol tebygol i Lywodraeth y Cynulliad.
- Bu proses Cyngor y Celfyddydau o fonitro'r Ganolfan yn gymesur â'i ddiddordebau yn y Ganolfan, ond roedd cofnodion Cyngor y Celfyddydau yn annigonol hefyd.

## Roedd diffygion sylweddol yng ngwaith monitro Llywodraeth y Cynulliad o weithrediadau Canolfan Mileniwm Cymru hyd nes i Ganolfan Mileniwm Cymru gyrraedd argyfwng ariannol

### Yn y cyfnod cychwynnol ar ôl agor, nid oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi cael dealltwriaeth ddigonol o fusnes y Ganolfan

**4.3** Fel yr ariannwr refeniw, Llywodraeth y Cynulliad oedd â'r prif gyfrifoldeb am fonitro busnes y Ganolfan i sicrhau bod ei buddsoddiad parhaus yn cael ei ddiogelu. Roedd monitro'r Ganolfan yn her newydd i Lywodraeth y Cynulliad, oherwydd dyma'r unig brosiect celfyddydol a ariennir yn uniongyrchol ganddi, yn hytrach na thrwy Gyngor y Celfyddydau. O ystyried ei strategaeth o roi pwysau ar y Ganolfan i weithredu mor effeithlon â phosibl (paragraff 3.23), roedd yn ddyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad i fonitro perfformiad y Ganolfan yn agos ar ôl iddi agor. Yn arbennig, roedd angen i Lywodraeth y Cynulliad fonitro iechyd ariannol sylfaenol y Ganolfan, oherwydd y risgiau ynghlwm wrth gario baich benthyciad mawr i'r cam gweithredol (paragraff 2.10).

**4.4** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi monitro cynnydd ers i'r Ganolfan agor, yn bennaf drwy ei phresenoldeb fel arsylwr, ynghyd â Phrif Weithredwr Cyngor y Celfyddydau, yng nghyfarfodydd Bwrdd y Ganolfan, drwy gyfarfodydd misol rhwng y Ganolfan a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a chyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn rhwng y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chadeirydd y Ganolfan. Roedd cytundeb arian refeniw gwreiddiol Llywodraeth y Cynulliad gyda'r Ganolfan yn cynnwys protocol gweithredol oedd yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth fanwl am berfformiad gael ei darparu gan y Ganolfan. Ni chafodd y cytundeb ei lofnodi hyd nes diwedd 2006, ddwy flynedd ar ôl i'r Ganolfan agor a dwy flynedd ar ôl i Lywodraeth y Cynulliad ddechrau darparu'r cymhorthdal refeniw. Yn y cyfamser, parhaodd cytundeb grant Llywodraeth y Cynulliad oedd yn cwmpasu'r cyfnod adeiladu'n weithredol ond nid oedd y cytundeb hwn yn cwmpasu materion yn ymwneud â rhedeg y Ganolfan.

**4.5** Ysgrifennodd swyddogion at y Ganolfan ym mis Gorffennaf 2005, wyth mis ar ôl iddi agor, gan nodi protocol monitro dros dro arfaethedig. Nododd y protocol hwn ofynion Llywodraeth y Cynulliad o ran gwybodaeth am gynnydd yn erbyn targedau'r cynllun busnes a chynulleidfaoedd. Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad unrhyw gofnodion pellach yn ymwneud â'r protocol monitro arfaethedig hwn. Mae nodyn Llywodraeth y Cynulliad o gyfarfod yn hwyrach ym mis Gorffennaf 2005 yn nodi i'r Ganolfan ddweud nad oedd yn bwriadu darparu gwybodaeth fanwl am werthiannau tocynnau oherwydd pryderon am wybodaeth oedd yn fasnachol gyfrinachol yn cael ei rhyddhau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, er bod y Ganolfan yn gwadu iddi wrthod darparu'r cyfryw wybodaeth i Lywodraeth y Cynulliad. Yn dilyn hynny penderfynodd Llywodraeth y Cynulliad na fyddai'n cadw cofnodion ar berfformiad y Ganolfan, nac unrhyw bapurau o gyfarfodydd Bwrdd y Ganolfan. O ganlyniad, prin iawn yw'r wybodaeth am berfformiad y Ganolfan dros y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2005 a mis Hydref 2006 ar gofnodion Llywodraeth y Cynulliad.

**4.6** Roedd y dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn gamddehongliad sylfaenol o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Prif amcan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yw hwyluso llywodraethu mwy agored a thryloyw, nid rhwystro swyddogion rhag cadw'r cofnodion sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys eithriadau y gall cyrff cyhoeddus eu cymhwyso i atal rhyddhau gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif, os yw'n briodol. Yn ystod ein harchwiliad, newidiodd Llywodraeth y Cynulliad ei phenderfyniad ac mae bellach yn cadw papurau'r Bwrdd a chofnodion eraill. Fodd bynnag, mae'r diffyg cofnodion a gwybodaeth wedi effeithio ar allu swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i fonitro'r Ganolfan. Gwaethygwyd hyn gan newidiadau staff yn is-adran noddi Llywodraeth y Cynulliad, sydd wedi golygu mai ychydig iawn o wybodaeth y mae staff y trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am fonitro iddynt wedi'i chael i ddatblygu eu dealltwriaeth o fusnes ac arian y Ganolfan.

**4.7** Dywedodd swyddogion wrthym eu bod yn gallu monitro perfformiad drwy ddefnyddio'r wybodaeth ym mhapurau Bwrdd y Ganolfan, er nad oedd y rhain yn cael eu cadw ar ffeiliau Llywodraeth y Cynulliad fel mater o drefn. Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid oedd dibynnu ar bapurau'r Bwrdd yn ddigonol:

- Nid oedd papurau'r Bwrdd a ddarparwyd gan y Ganolfan cyn cyfarfodydd y Bwrdd yn cynnwys data cynhwysfawr ar berfformiad ariannol y Ganolfan – o ran lefel y manylder yr oedd ei hangen ar swyddogion. Er enghraifft, o fis



Gorffennaf 2005 ymlaen, nid oedd gwybodaeth fanwl am werthiannau tocynnau masnachol yn cael ei chynnwys yn adroddiadau Bwrdd y Ganolfan.

- Dywedodd swyddogion a'r Ganolfan wrthym fod cyfrifon rheoli, yn cynnwys gwybodaeth ariannol fanylach yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfodydd y Bwrdd (yn hytrach na'u darparu ymlaen llaw). Ond gan nad oeddent yn cael eu cadw ar ffeiliau Llywodraeth y Cynulliad ar ôl hynny, prin oedd y cyfle a gafodd swyddogion i ddadansoddi'r data ariannol ar y cyfrifon ariannol hyn yn fanwl.

**4.8** Dywedodd swyddogion wrthym fod ganddynt fynediad i wybodaeth fanwl am berfformiad a gwybodaeth ariannol fanwl a gadwyd gan y Ganolfan, ar gais. Mae cofnodion Llywodraeth y Cynulliad yn dangos, wrth baratoi cyngor ar gyfer cyfarfod rhwng y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chadeirydd y Ganolfan yng nghanol 2006, bod swyddogion wedi gofyn i'r Ganolfan am wybodaeth fanwl am werthiannau tocynnau, ond nid oedd y Ganolfan yn barod i ddarparu'r wybodaeth y gwnaed cais amdani oherwydd pryderon am gyfrinachedd masnachol a rhyddid gwybodaeth. Mae'r Ganolfan yn gwadu y cafodd cais o'r fath ei wrthod. Nid oes cofnodion o unrhyw geisiadau eraill o'r fath gan Lywodraeth y Cynulliad, nac iddi gael rhagor o wybodaeth fanwl gan y Ganolfan, yn y cyfnod cyn mis Hydref 2006.

**4.9** Yn ogystal, cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad gyfarfodydd monitro rheolaidd gyda'r Ganolfan. Dywedodd swyddogion wrthym fod adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth fanwl yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd misol rhwng y Ganolfan a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, yng nghofnodion Llywodraeth y Cynulliad ceir cofnod o ddim ond dau gyfarfod o'r fath cyn mis Hydref 2006, pan ofynnodd y Ganolfan am arian ychwanegol. Nid yw'r naill gofnod na'r llall yn cynnwys gwybodaeth fanwl am arian neu berfformiad y Ganolfan. Mae nodiadau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ddwywaith y flwyddyn rhwng y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chadeirydd y Ganolfan yn dangos bod y cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n gyffredinol ar ragolygon cyllideb y Ganolfan a materion lefel uchel eraill, er i'r Ganolfan a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ddweud wrthym fod yr heriau ariannol a oedd yn wynebu'r Ganolfan yn cael eu trafod. Dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrthym fod y Ganolfan yn cyflwyno gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad yn y cyfarfodydd hyn, ond ni cheir data ariannol na data perfformiad manwl, heblaw am y rhagolwg diffyg blynyddol cyffredinol, a gofnodwyd yn y cofnodion. Nid oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan y Ganolfan yn y cyfarfodydd hyn yn cael ei chadw ar ffeiliau Llywodraeth y Cynulliad.

**4.10** Yn ôl swyddogion Llywodraeth y Cynulliad roedd ganddynt ddigon o wybodaeth i fonitro'r sefyllfa gyffredinol yn y Ganolfan. Dywedwyd wrthym fod eu dealltwriaeth lefel uchel o arian a pherfformiadau'r Ganolfan yn ddigonol ar gyfer eu dull o roi pwysau cyffredinol ar y Ganolfan, yn enwedig drwy gyfarfodydd y Gweinidog dros Ddiwylliant gyda'r Ganolfan, i weithredu mor effeithlon â phosibl. Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid oedd gan Lywodraeth y Cynulliad ddigon o wybodaeth fel sail ar gyfer rhaglen gadarn o fonitro. Byddai'r diffyg gwybodaeth hwn wedi atal swyddogion rhag herio'r Ganolfan yn effeithiol ar, er enghraifft, sut roedd yn bwriadu talu'r benthyciad yn ôl. Byddai hefyd wedi amharu ar allu swyddogion i roi cyngor, fel y digwyddodd ym mis Mai 2006, pan nad oedd swyddogion yn gallu rhoi cyngor llawn ar berfformiad masnachol y Ganolfan i'r Gweinidog dros Ddiwylliant ar y pryd oherwydd nid oedd ganddynt y wybodaeth angenrheidiol am werthiannau tocynnau.



*Ffynhonnell: Canolfan Mileniwm Cymru*

**Wrth gytuno i ymestyn ei gwarant benthyciad yn 2005 ac unwaith eto yn 2006, ni wnaeth Llywodraeth y Cynulliad ymchwilio'n ddigonol i allu'r Ganolfan i dalu'r benthyciad yn ôl**

4.11 Parhaodd Llywodraeth y Cynulliad i adnewyddu ei gwarant o fenthyciad y Ganolfan ond, tan fis Hydref 2006, ni wnaeth adolygu'n llawn effaith y benthyciad ar fusnes y Ganolfan, a'r tebygolrwydd o'i dalu yn ôl. Adnewyddodd Llywodraeth y Cynulliad y benthyciad ym mis Mehefin 2005, yn fuan ar ôl i'r Ganolfan nodi y byddai ganddi ddiffyg o £1.7 miliwn am y flwyddyn, a fyddai'n cael ei ariannu gan arian y prif roddwr ac arian arall a ddyrannwyd yn flaenorol i dalu'r diffyg cyfalaf yn ôl (Ffigur 9). Ar y pryd, ni wnaeth swyddogion gais am ragolwg llif arian parod manwl gan y Ganolfan yn dangos sut a phryd y byddai'r benthyciad yn cael ei dalu yn ôl. Ym mis Tachwedd 2005, cytunodd y Ganolfan y byddai'n paratoi cynllun pum mlynedd ar gyfer ad-dalu'r benthyciad.

4.12 Adnewyddodd Llywodraeth y Cynulliad ei gwarant benthyciad eto ym mis Mai 2006, ac erbyn hynny roedd y Ganolfan wedi cael ei grantiau cyfalaf terfynol gan yr arianwyr cyhoeddus; bu'r rhain yn gymorth i leihau'r benthyciad i £11 miliwn. Roedd y Ganolfan yn bwriadu talu gweddill y benthyciad yn ôl dros y cyfnod 2008 i 2017. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod swyddogion wedi asesu'n gadarn y tebygolrwydd y byddai'r cynllun ad-dalu hwn yn cael ei weithredu ac ni wnaeth swyddogion archwilio'n fanwl pam na fu'n bosibl i'r Ganolfan dalu'r rhan fwyaf o'r benthyciad yn ôl drwy ddefnyddio'r arian cyfalaf yr oedd yn disgwyl ei gael yn 2005 (paragraff 2.10 a Ffigur 9). Yn ein barn ni, pe bai swyddogion wedi cynnal asesiad manwl byddent wedi sylweddol ei bod yn annhebygol iawn y gallai'r Ganolfan gynhyrchu gwarged i ddechrau ad-dalu'r benthyciad erbyn 2008 oherwydd:

- dangosodd cynlluniau busnes y Ganolfan fod ganddi ddiffygion blynyddol mawr;
- o 2011 ymlaen, byddai sefyllfa ariannol y Ganolfan wedi bod yn fwy heriol oherwydd ni fyddai bellach yn cael ei rhodd flynyddol o tua £1 filiwn gan ei phrif roddwr.

Hefyd, byddai'r taliadau llog dros y cyfnod hir hwn wedi cael effaith sylweddol ar ddichonoldeb y Ganolfan. Gwariodd y Ganolfan gyfanswm o £2 filiwn ar daliadau llog y benthyciad, tan iddo gael ei dalu gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Tachwedd 2007.

## Yn wynebu argyfwng ariannol yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, datblygodd Llywodraeth y Cynulliad well dealltwriaeth o fusnes Canolfan Mileniwm Cymru a cheisiodd fynd i'r afael â sefyllfa ariannol Canolfan Mileniwm Cymru

4.13 Ym mis Hydref 2006, hysbysodd Cadeirydd y Ganolfan y Gweinidog dros Ddiwylliant fod y Ganolfan yn wynebu anawsterau ariannol difrifol. Dadleuodd papur ategol fod y



Ganolfan wedi llwyddo i gynhyrchu incwm yn unol â'i thargedau ar gyfer 2006, ond bod y costau wedi profi'n sylweddol uwch na'r disgwyl. Gwnaeth papur y Ganolfan gais i Lywodraeth y Cynulliad ystyried y canlynol ar frys:

- troi'r benthyciad gan HSBC, sef £11 miliwn ar y pryd, yn fenthyciad di-log gan Lywodraeth y Cynulliad, a fyddai'n arbed £500,000 y flwyddyn, gydag egwyl gychwynnol rhag talu i'w drafod;a
- chynyddu arian refeniw i £2.7 miliwn (ac eithrio'r gronfa ar gyfer gwaith atgyweirio), yn gysylltiedig â chwyddiant o 2007; neu
- os nad oedd Llywodraeth y Cynulliad yn gallu cytuno ar gynnydd yn y cymhorthdal refeniw ar gyfer 2007, gallai ddarparu benthyciad di-log o £13 miliwn a mynd i'r afael â'r angen am gymhorthdal yn 2008.

**4.14** Mewn ymateb, roedd Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor y Celfyddydau wedi defnyddio'r ymgynghorwyr a gynhaliodd asesiadau cynharach o gynllun busnes y Ganolfan (paragraffau 3.18 a 3.21) i adolygu gweithrediadau cyfredol y Ganolfan a chynghori ar y cymhorthdal refeniw yr oedd ei angen. Er mwyn rheoli anghenion ariannol uniongyrchol y Ganolfan, cytunodd Llywodraeth y Cynulliad gynyddu ei gwarant ar fenthyciad presennol HSBC i £13.5 miliwn i alluogi'r Ganolfan i barhau i weithredu yn y byrdymor.

**4.15** Ym mis Mai 2007, nododd yr ymgynghorwyr fod y Ganolfan yn cael ei rhedeg yn dda ar y cyfan, gyda chynulleidfaoedd o amgylch yr uchafswm y gellid eu disgwyl. Oherwydd bod ffigurau'r Ganolfan yn dangos iddi fod â cholledion gweithredu blynyddol, ac mai prin oedd y cyfle iddi gynhyrchu unrhyw warged gweithredu yn ôl y rhagolwg, daeth adolygiad yr ymgynghorydd i'r casgliad nad oedd tebygolrwydd gwirionedd y byddai'r Ganolfan yn talu'r benthyciad banc yn ôl. Felly argymhellodd yr ymgynghorwyr y dylai Llywodraeth y Cynulliad ei dalu yn ôl cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi taliadau llog pellach. Yn ogystal, cyfrifodd yr ymgynghorwyr y gallai fod angen cymhorthdal o rhwng £3 miliwn a £3.75 miliwn os nad mwy ar y Ganolfan, ac eithrio taliadau llog ar y benthyciad. Fodd bynnag, ni wnaeth adroddiad yr ymgynghorydd argymhelliad clir y dylai Llywodraeth y Cynulliad gytuno ar y lefel hon o gymhorthdal, oherwydd bod rhybuddion mawr ynghylch cadernid y ffigurau sylfaenol, a nododd yr adroddiad na ellid gwneud argymhelliad pendant tan i'r Ganolfan a Llywodraeth y Cynulliad gael trafodaethau manwl.

**4.16** Dros haf 2007, cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad archwiliadau pellach o ragolygon diwygiedig y Ganolfan, gyda chymorth Cyllid Cymru[12]. Fel rhan o'r adolygiad hwn, siaradodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad â staff y Ganolfan i brofi eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol a sut roeddent yn gysylltiedig â pherfformiad yn y gorffennol. Daeth yr adolygiad i'r casgliadau canlynol:

- bod sail weddol gadarn i'r rhagamcanion ariannol, er bod posibilrwydd i incwm gael ei danddatgan mewn rhai meysydd;
- nid oedd tebygolrwydd realistig y byddai'r Ganolfan yn talu'r benthyciad yn ôl;
- ni allai Llywodraeth y Cynulliad wneud dim oherwydd heb arian ychwanegol gallai'r Ganolfan fynd yn fethdalwr, ac os felly byddai'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad dalu'r benthyciad yn ôl;
- roedd darparu arian Llywodraeth y Cynulliad i dalu'r benthyciad yn ôl yn syth

12 Mae Cyllid Cymru yn gwmni a berchnogir gan Lywodraeth y Cynulliad sy'n darparu cymorth i fusnesau a gwasanaethau ariannol i gwmnïau yng Nghymru.

yn cynnig gwell gwerth am arian na darparu refeniw ychwanegol i dalu'r benthyciad yn ôl dros amser.

4.17 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad a chanfyddiadau'r ymgynghorwyr, cynghorodd swyddogion y Gweinidog ym mis Hydref 2007 y dylent dalu'r benthyciad yn ôl, ac y dylid cynyddu'r cytundeb refeniw. Nododd y cyngor y risgiau oedd yn weddill ac argymhellodd y dylai amodau llym fod ynghlwm wrth yr ariannu:

- dylai'r Ganolfan ddarparu gwybodaeth fanwl am berfformiad yn erbyn amrywiaeth o ddangosyddion effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i ategu'r broses o fonitro perfformiad yn agosach;
- dylid cynnal adolygiad annibynnol o lywodraethu corfforaethol yn y Ganolfan, a sgiliau Bwrdd y Ganolfan.

4.18 Ym mis Tachwedd 2007, cyhoeddodd y Gweinidog dros Ddiwylliant y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn talu benthyciad HSBC yn ôl, ac y byddai cymhorthdal refeniw blynyddol y Ganolfan yn codi i £3.7 miliwn o 2008-09. Cyhoeddodd y Gweinidog dros Ddiwylliant y byddai amodau ynghlwm wrth yr arian, yn cynnwys targedau i wella effeithlonrwydd. Yn ogystal, dywedodd Llywodraeth y Cynulliad wrth y Ganolfan y gallai wneud cais ar wahân am arian cyfalaf ychwanegol ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Ym mis Rhagfyr 2007, talodd Llywodraeth y Cynulliad y benthyciad, a oedd yn £13.5 miliwn ar y pryd, a rhoddodd flaenswm o £1 filiwn i'r Ganolfan o'i arian refeniw ar gyfer 2008-09. Ym mis Gorffennaf 2008, llofnododd Llywodraeth y Cynulliad a'r Ganolfan gytundeb arian refeniw diwygiedig, a oedd yn rheoli'r modd y câi arian Llywodraeth y Cynulliad ei ryddhau.

4.19 Dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrthym, wrth archwilio gofynion cymorthdal y Ganolfan, eu bod wedi cymryd cysur yn y ffaith bod ganddynt werth dwy flynedd o wybodaeth am berfformiad fel sail i'w hasesiad. Roedd hyn yn cynnwys y manylion yn adroddiad yr ymgynghorwyr oedd yn dangos llwyddiant y Ganolfan o safbwynt diwylliannol a datblygu cynulleidfa. Fodd bynnag, nid oedd adolygiad yr ymgynghorwyr, nac adolygiad dilynol Llywodraeth y Cynulliad, yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at y ffigurau alldro archwiliedig ar gyfer 2006, a ryddhawyd i'r cyhoedd eu gweld ers haf 2007. Mae ffigurau a fu'n destun archwilio allanol yn rhoi tystiolaeth gadarnach o berfformiad ariannol diweddar na'r rhagolygon cyllideb a ddefnyddiwyd gan yr ymgynghorwyr, a'r cyfrifon rheoli a baratowyd yn 2007 a archwiliwyd gan Lywodraeth y Cynulliad fel rhan o'r adolygiad. Yn ystod ein harchwiliad nodwyd rhai gwahaniaethau rhwng y ffigurau cyllideb ar gyfer 2006 a ddarparwyd i'r ymgynghorwyr a'r alldro archwiliedig, yn enwedig o ran incwm theatr, rhoddion a chostau staff. Oherwydd nad oedd ganddynt ddealltwriaeth fanwl o sefyllfa ariannol y Ganolfan, nid oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gallu cysoni'r gwahaniaethau hyn eu hunain heb holi'r Ganolfan.

## Ar y cyfan, bu proses Cyngor y Celfyddydau o fonitro cynnydd yn gymesur â'i rôl

4.20 Mae Cyngor y Celfyddydau, ynghyd â Llywodraeth y Cynulliad, yn mynd i gyfarfodydd Bwrdd y Ganolfan er mwyn arsylwi. Yn wahanol i Lywodraeth y Cynulliad, nid yw Cyngor y Celfyddydau yn un o arianwyr refeniw'r Ganolfan; felly mae ganddo ffocws gwahanol o ran monitro, ac mae ganddo lai o drosoledd a dylanwad dros y






*Ffynhonnell: Canolfan Mileniwm Cymru/Kiran Ridley*

Ganolfan. Fodd bynnag, mae gan Gyngor y Celfyddydau fuddiant breintiedig sylweddol yn nichonoldeb y Ganolfan yn y dyfodol, o ran y buddiannau celfyddydol disgwyliedig o'r £10 miliwn a ddarparwyd ganddo tuag at y gwaith adeiladu, ac oherwydd bod chwech o'r saith sefydliad preswyl yn cael eu hariannu gan Gyngor y Celfyddydau (Atodiad 1).

**4.21** Dilynodd Cyngor y Celfyddydau arweiniad Llywodraeth y Cynulliad ar y mater o gadw cofnodion ac nid yw wedi cadw gwybodaeth fanwl a phapurau'r Bwrdd oherwydd pryderon ynghylch cais posibl o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Dywedodd swyddogion Cyngor y Celfyddydau wrthym eu bod yn fodlon iddynt gael gweld gwybodaeth ddigon cadarn drwy adroddiadau Bwrdd y Ganolfan, yn ogystal â thrwy gyfarfodydd â swyddogion y Ganolfan, er nad yw'r rhain wedi'u cofnodi. Serch hynny, cydnabu swyddogion Cyngor y Celfyddydau y byddai angen rhagor o wybodaeth arnynt pe bai'r Ganolfan yn gleient refeniw iddo.

**4.22** Mae Cyngor y Celfyddydau wedi chwarae rhan bwysig o ran helpu i fynd i'r afael â rhai o'r anawsterau yn y cydberthnasau rhwng y sefydliadau preswyl a'r Ganolfan. Cafwyd trafodaethau rhwng Cyngor y Celfyddydau, y Ganolfan ac OCC ar fater y 'nosweithiau tywyll' (y blwch ar ôl Ffigur 11) rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2008. Mae'r Ganolfan bellach wrthi'n asesu effaith ariannol y 'nosweithiau tywyll' ac ar ôl cytuno arnynt, defnyddir y goblygiadau ariannol i lywio trafodaethau ar ariannu yn y dyfodol. Ac ar ôl cyfarfodydd a hwyluswyd gan Gyngor y Celfyddydau, cytunodd y Ganolfan a'i sefydliadau preswyl ar weledigaeth greadigol newydd a rhaglen o weithgarwch cydweithredol ym mis Ebrill 2008.

# Atodiad 1 - Canolfan Mileniwm Cymru a'r sefydliadau preswyl

Agorwyd y Ganolfan yn 2004 ac mae wedi meithrin enw iddi'i hun fel un o gyrchfannau celfyddydol a diwylliannol eiconig y byd. Gweledigaeth y Ganolfan yw bod 'yn ddiamheuol Gymreig ac yn eithriadol yn rhyngwladol': yn lleoliad diwylliannol rhyngwladol o bwys ac yn ganolfan i'r celfyddydau perfformio, yn enwog am ei hysbrydoliaeth, ei rhagoriaeth a'i harweinyddiaeth. Mae gan y Ganolfan ddau lwyfan – theatr Donald Gordon a Stiwdio Weston, sef y lleiaf ohonynt. Mae'r Ganolfan yn llwyfannu amrywiaeth o berfformiadau: sioeau cerdd o'r West End, opera, balet a dawns gyfoes, hip hop a sioeau comedi yn ei dwy theatr. Defnyddir yr ardaloedd cyhoeddus hefyd ar gyfer cynnal arddangosfeydd celf, gweithdai, diwrnodau hyfforddi, perfformiadau am ddim bob dydd ar y Lanfa, teithiau tywys a cheir bariau, bwytai ac allfeydd manwerthu yno.

Daw'r rhan fwyaf o incwm y Ganolfan o werthiannau masnachol a nawdd, er ei bod yn cael cymorth refeniw blynyddol gan Lywodraeth y Cynulliad, a gynyddwyd yn ddiweddar o £750,000 i £3.7 miliwn.

Mae'r adeilad yn gartref i saith sefydliad preswyl, gyda phob un ohonynt yn talu rhent rhad i'r Ganolfan. O'r saith sefydliad preswyl hyn, mae chwech ohonynt yn cael arian refeniw gan Gyngor y Celfyddydau[13]:

- Opera Cenedlaethol Cymru – mae gan y cwmni ofod ymarfer, perfformio a gweinyddol yn y Ganolfan. Mae perfformiadau Opera Cenedlaethol Cymru yn y Ganolfan wedi bod yn hynod boblogaidd gyda'r tocynnau i gyd yn cael eu gwerthu ar gyfer llawer ohonynt.
- Diversions – mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn teithio ledled y DU a thramor yn perfformio gwaith coreograffwyr rhyngwladol nodedig. Mae Diversions yn perfformio yn ei Dŷ Dawns yn y Ganolfan.
- Academi – yr Asiantaeth Hyrwyddo Llenyddiaeth Genedlaethol a Chymdeithas Llenorion Cymru gyda chyfrifoldeb dros wasanaethu awduron a darllenwyr ar hyd a lled Cymru. Yn y Ganolfan, mae'r Academi yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau yn cynnwys perfformiadau, gweithdai, dathliadau o awduron mawr eu bri, cynadleddau, cystadlaethau llenyddol, barddoniaeth fyrfyfyr, trafodaethau a mwy.
- Hijinx Theatre – nod y cwmni hwn yw creu theatr o ansawdd uchel sy'n hygyrch, yn ddifyr ac yn heriol ar gyfer cymunedau bach ledled Cymru a Lloegr. Mae gan Hijinx swyddfa yn y Ganolfan ac mae'n perfformio yn Stiwdio Weston.
- Tŷ Cerdd – partneriaeth rhwng pedwar sefydliad cerddorol sy'n darparu 'Tŷ Cerdd' cynhwysfawr a leolir yn y Ganolfan. Ymhlith y cyfleusterau sydd ar gael mae stiwdio recordio, cabanau gwrando a phwyntiau gwybodaeth, a llyfrgell helaeth o sgorau ymchwil a pherfformio.
- Touch Trust – mae'n darparu rhaglenni symud a dawns creadigol ar sail cyffwrdd ar gyfer unigolion ag awtistiaeth, ymddygiad heriol ac anableddau dwys a lluosog. Mae gan Touch Trust ystafell amlsynhwyraidd wedi'i hadeiladu'n arbennig yn y Ganolfan. Yn ogystal â sesiynau dyddiol, mae Touch Trust yn llwyfannu perfformiadau Dyddiau Dawns a Gweithdai ar Benwythnosau ac yn ystod y Gwyliau mewn

13 Er ei bod yn cael ei hariannu gan Gyngor y Celfyddydau, nid yw'r Touch Trust yn cael unrhyw ran o'r £800,000 ychwanegol a delir i rai o'r sefydliadau preswyl i dalu'r gost ychwanegol o breswylio yn y Ganolfan (paragraff 3.11).




cydweithrediad â sefydliadau cymunedol dawns a'r celfyddydau yng Nghymru ac artistiaid annibynnol.

Mae'r Ganolfan hefyd yn gartref i Urdd Gobaith Cymru, a sefydlwyd i roi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan yr Urdd wersyll i 150 o bobl ifanc aros yn y Ganolfan. Bob blwyddyn, daw 10,000 o blant i aros am wyliau byr neu am wythnos. Bob pedair blynedd, yn dechrau yn 2005, bydd yr Urdd yn llwyfannu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Ganolfan. Dyma'r ŵyl ieuenctid gystadleuol fwyaf yn Ewrop. Mae'r Urdd yn cael arian refeniw gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

# Atodiad 2 - Dulliau

Mae'r archwiliad hwn wedi ystyried a yw'r arianwyr wedi mynd i'r afael yn effeithiol â'r risgiau dan sylw o ran ariannu'r canlynol:

- adeiladu'r Ganolfan;
- gweithrediad y Ganolfan.

Cynhaliwyd ein harchwiliad gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- adolygu ffeiliau - archwiliwyd y cofnodion a ddelir gan Lywodraeth y Cynulliad, yn cynnwys cofnodion Awdurdod Datblygu Cymru gynt, Cyngor y Celfyddydau a'r Ganolfan. Canolbwyntiwyd yn benodol ar:

  **a** arfarniadau'r arianwyr o'r prosiect adeiladu;

  **b** arfarniadau'r arianwyr o gynlluniau busnes y Ganolfan;

  **c** cyngor ac argymhellion y swyddogion i Weinidogion;

  **ch** adroddiadau monitro prosiect;

  **d** cofnodion y cyfarfodydd monitro;

  **dd** papurau bwrdd y Ganolfan.

- cyfweliadau rhannol strwythuredig – gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, yn cynnwys swyddogion Awdurdod Datblygu Cymru gynt, swyddogion Cyngor y Celfyddydau, swyddogion Cronfa'r Loteri Fawr, staff y Ganolfan a staff o Ganolfan Lowri;
- adolygiad o arfer gorau – ystyriwyd arfer gorau o ran prosiectau adeiladu gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth (Achieving Excellence in Construction) a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- ymweliad â sefydliad tebyg – ymwelwyd â lleoliad aml-gelfyddydol Canolfan Lowri yn Salford, Manceinion i weld rhai o'r gwahaniaethau rhyngddi a'r Ganolfan a'r pethau sy'n debyg.